



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Adolygiad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig

---

Gorffennaf 2019

## Cynnwys

	Crynodeb Gweithredol ac argymhellion
1	Cefndir
2	Methodoleg a chyd-destun
3	Ymgysylltu â rhanddeiliaid
4	Canfyddiadau allweddol ac argymhellion
5	Y Camau Nesaf

## Adolygiad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant

### Crynodeb gweithredol

Caiff gofal plant cofrestredig ar gyfer plant hyd at 12 oed ei reoli gan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Maent yn ymdrin ag amrywiaeth eang o ddarpariaeth o wahanol fath, gan gynnwys gofalwyr plant, gofal dydd, gofal plant y tu allan i'r ysgol a darpariaeth chwarae mynediad agored<sup>1</sup>. Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol wedi'u cynllunio i helpu darparwyr a lleoliadau i fodloni'r rheoliadau sy'n gysylltiedig â darpariaeth gofal plant cofrestredig. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn rheoleiddio ac yn archwilio darpariaeth gofal plant ar ran Llywodraeth Cymru yn unol â'r rheoliadau, y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'i fframwaith arolygu ei hun.

Ni chynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ers 2010 er gwaethaf newidiadau sylweddol yn y sector, gan gynnwys cynyddu'r terfyn oedran uchaf ar gyfer cofrestru gofal plant o 8 i 12 oed yn 2016. Yng ngoleuni hyn, ac yn sgil adborth gan y sector gofal plant a chwarae, roedd Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn bryd cynnal adolygiad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Cynhaliwyd yr adolygiad gan swyddogion Llywodraeth Cymru rhwng 2017-19. Roedd y gwaith yn cynnwys dadansoddi'r berthynas rhwng Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2016 a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, ymgysylltu â rhanddeiliaid ar draws y sector gofal plant a chwarae ac archwilio'r dulliau a ddefnyddir gan weinyddiaethau eraill y DU i asesu safon darpariaeth gofal plant a chwarae. Ystyriodd yr adolygiad hefyd y berthynas rhwng Fframwaith Arolygu AGC a'r cynlluniau ansawdd a weithredir gan awdurdodau lleol unigol a sefydliadau gofal plant a chwarae.

---

<sup>1</sup>Mae Chwarae Cymru, sef yr elusen genedlaethol dros chwarae plant, wedi tynnu sylw at y gwahaniaeth rhwng y sector chwarae (pob un y mae eu gwaith yn effeithio ar chwarae plant) a'r sector **gwaith chwarae** (pob un sy'n gweithio i hwyluso chwarae plant mewn lleoliadau sydd wedi'u staffio, megis darpariaeth chwarae mynediad agored) sydd wedi codi o ganlyniad i'r iaith a ddefnyddir ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 a'i rheoliadau cysylltiedig. Mae geiriad yr adroddiad yn adlewyrchu y gwahaniaeth hwn.

Yn ystod yr adolygiad, bu nifer o ddatblygiadau polisi a effeithiodd ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Ymhlith y rhain, roedd datblygu'r polisi Plentyndod Cynnar, Addysg a Gofal (ECEC), y cais am dystiolaeth ar gyfer Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010, yr Adolygiad Chwarae sydd i ddod, a chyhoeddi *Cymraeg 2050 Miliwn o siaradwyr Cymraeg*. Mae'r adolygiad wedi cadw'r rhain mewn cof ac wedi ceisio cyd-fynd ag unrhyw argymhellion a chamau gweithredu sy'n deillio o'i ganfyddiadau â'r datblygiadau polisi ehangach hyn.

Mae nifer o faterion allweddol wedi codi o'r adolygiad. Mae'r rhain yn amrywio o newidiadau posibl i safonau penodol i ystyried yr agenda rheoleiddio ac ansawdd ehangach, a'u perthynas â'r sector gofal plant a chwarae. Gellir crynhoi'r themâu allweddol hyn fel a ganlyn;

- Diogelu - pryderon am y diffyg dealltwriaeth a geir mewn rhai rhannau o'r sector am gyfrifoldebau yn ymwneud â diogelu ac ymwybyddiaeth o'r agenda ddiogelu ehangach;
- Arolygu/AGC – canfyddiad ymhlith rhai rhannau o'r sector y ceir anghysondeb yn y ffordd y caiff y Safonau Gofynnol Cenedlaethol eu cymhwyso. Awydd am fwy o gydweithredu ag AGC er mwyn helpu i fynd i'r afael ag anghysondebau, hyrwyddo dealltwriaeth a symud yr agenda ansawdd yn ei blaen;
- Y gymhareb staffio ychwanegol - mae llawer yn ystyried bod y gofyniad yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol i leoliadau gofal dydd llawn a gofrestrir ar gyfer 20 o blant neu fwy gael aelod ychwanegol o staff yn rhy gyfyngol. Mae'r gymhareb yn berthnasol hyd yn oed pan fo llai nag 20 o blant yn bresennol ac nid yw'n berthnasol i leoliadau sesiynol;
- Cymwysterau – mae'r sector yn wynebu problemau wrth fodloni gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol o ran cymwysterau. Mae hyn yn broblem benodol i leoliadau iaith Gymraeg a lleoliadau gwaith chwarae. Ceir hefyd dryswch yn y sector ynghylch gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol o ran cymwysterau;

- Cymorth Cyntaf - roedd galwadau am fwy o eglurder ynglŷn â'r cymhwyster cymorth cyntaf sy'n ofynnol er mwyn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol;
- Cynorthwyr Gofal Plant a Gwarchodwyr Plant yn cydweithio – awydd am fwy o eglurder ynghylch gofynion rheoleiddiol
- Chwarae Mynediad Agored – mae adborth gan y sector yn awgrymu bod angen mabwysiadu dull mwy cymesur tuag at gofrestru;
- Ansawdd – er i'r adolygiad ddangos bod amrywiaeth o ffarmweithiau ansawdd sydd wedi'u cynllunio er mwyn helpu i wthio'r agenda ansawdd yn ei blaen, ceir rhywfaint o negeseuon cymysg a dyblygu sydd â'r potensial i ddrysu darparwyr a rhieni fel ei gilydd, a lleihau'r cyfleoedd am ddull gweithredu cydgysylltiedig o ran ansawdd ym mhob rhan o'r sector;
- Cyfnod Sylfaen – mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn pennu mai'r darparwyr cofrestredig sy'n gyfrifol am sicrhau bod egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu deall a'u cymhwyso'n briodol, p'un a ydynt wedu'u hariannu i gyflwyno darpariaeth Meithrin y Cyfnod Sylfaen ai peidio. Roedd yr adborth yn awgrymu bod diffyg canllawiau clir i ddarpariaeth Meithrin y Cyfnod Sylfaen nas ariennir yr hyn a oedd yn ofynnol iddynt ei wneud er mwyn cydymffurfio â gofynion Cyfnod Sylfaen y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.
- Fformat/strwythur cyffredinol y Safonau Gofynnol Cenedlaethol - roedd cytundeb cyffredinol ynghylch defnyddioldeb y safonau wrth helpu darparwyr i ddeall sut i fodloni'r rheoliadau, er bod gan y sector chwarae amheuan sylweddol am safonau penodol. Roedd barn yn amrywio ar draws y sector o ran p'un a ddylai safonau fod yn benodol i sector neu'n gyffredin i bob rhan o'r sector. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol ar gyfer creu safonau mwy cymesur.

Mewn ymateb i'r canfyddiadau hyn, mae'r adolygiad wedi awgrymu'r 20 o argymhellion canlynol. Hoffai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol er mwyn cytuno ar gynllun gweithredu i fynd â'r argymhellion rhagddynt mewn modd amserol a chymesur.

### **Argymhelliad 1**

Dylai awdurdodau lleol weithio gyda'r Bwrdd Diogelu Plant perthnasol i ystyried yr hyfforddiant a gynigir i leoliadau gofal plant a rhoi cyngor i unigolion a lleoliadau ar ddarpariaeth hyfforddiant briodol

### **Argymhelliad 2**

Gwella'r trefniadau rhannu gwybodaeth am faterion diogelu rhwng Arolygiaeth Gofal Cymru ac awdurdodau lleol

### **Argymhelliad 3**

Arolygiaeth Gofal Cymru ac awdurdodau lleol i ystyried cyfleoedd i ymgysylltu'n rheolaidd ac yn well er mwyn rhannu gwybodaeth am feysydd o fuddiannau a rennir

### **Argymhelliad 4**

Parhau â'r gwaith ymgysylltu sydd ar y gweill rhwng cynrychiolwyr o'r sector gofal plant a chwarae ac Arolygiaeth Gofal Cymru er mwyn mynd i'r afael ag anghysondebau

### **Argymhelliad 5**

Ystyried cynnwys arolygu a rheoleiddio lleoliadau chwarae yn yr Adolygiad Chwarae ehangach.

### **Argymhelliad 6**

Ystyried a ellid mabwysiadu agwedd fwy hyblyg o ran staff ychwanegol gan ddibynnu ar amgylchiadau a natur y ddarpariaeth

### **Argymhelliad 7**

Ystyried a ddylid diwygio safon 13.7(DC) i gynnwys staff “sy'n gweithio tuag at gymhwyster” o fewn amserlen benodedig fel rhan o'r cymarebau derbyniol

### **Argymhelliad 8**

Parhau â'r gwaith sydd ar y gweill gyda'r sector ac Arolygiaeth Gofal Cymru i sicrhau dealltwriaeth well o'r cymwysterau a gydnabyddir er mwyn bodloni gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol presennol

### **Argymhelliad 9**

Rhoi mwy o bwyslais ar Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) o fewn yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

### **Argymhelliad 10**

Cymwysterau chwarae i gael eu hystyried fel rhan o'r Adolygiad Chwarae ehangach

### **Argymhelliad 11**

Ystyried gwaith cwmpasu a wnaed hyd yma ar hyfforddiant cymorth cyntaf ac yn arbennig, y gofynion o ran hyfforddiant Cymorth Cyntaf Pediatrig

### **Argymhelliad 12**

Ystyried darparu canllawiau mewn achosion lle mae mwy na dau warchodwr plant cofrestredig neu fwy nag un gwarchodwr plant a chynorthwydd yn gweithio o'r un safle

### **Argymhelliad 13**

**Datblygu canllawiau cliriach ar rôl cynorthwywyr gwarchod plant, yn arbennig o ran y ffordd y cânt eu goruchwyllo er mwyn sicrhau gofal diogel o ansawdd i blant**

### **Argymhelliad 14**

**Ystyried datblygu dull mwy cymesur o reoleiddio mewn perthynas â darpariaeth o fathau penodol, er enghraifft chwarae mynediad agored neu ddarpariaeth dymhorol o bosibl. Rheoleiddio i adlewyrchu natur ac amgylchiadau penodol y lleoliad, gan gynnwys staffio, cyd-destun cymunedol, natur yr amgylchedd ac oedran a gallu'r plant**

### **Argymhelliad 15**

**Canfyddiadau'r Cais am Dystiolaeth ar Orchymyn Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 i lywio unrhyw newidiadau posibl i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

### **Argymhelliad 16**

**Ystyried gofynion cofrestru ar gyfer darpariaeth y lleoliadau gwaith chwarae fel rhan o'r Adolygid Chwarae ehangach**

### **Argymhelliad 17**

**Gwaith pellach i gael ei wneud i ystyried yr agenda ansawdd a'r berthynas rhwng y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, Fframwaith Arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru a'r cynlluniau canllawiau ansawdd ar draws y sector gofal plant a chwarae. Bydd unrhyw ganfyddiadau yn cyd-fynd yn llawn â'r weledigaeth tymor hwy ar gyfer ECEC**

### **Argymhelliad 18**

**Ystyried y ffordd orau o gefnogi'r sector drwy drosglwyddo o'r Cyfnod Sylfaen i gwyddorion y Cwricwlwm Newydd a ffyrdd newydd o weithio**



### **Argymhelliad 19**

**Ystyried gwneud gwaith pellach i edrych ar rai o fanteision ac anfanteision ymagwedd fwy cymesur at y safonau, neu ymagwedd fwy penodol i fath.**

### **Argymhelliad 20**

**Ystyried ffyrdd o symleiddio'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol presennol**

## 1. Cefndir

- 1.1 Caiff darpariaeth gofal plant cofrestredig ei reoli gan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, a wnaed yn unol ag adran 30(3) o'r Mesur. Maent yn ymdrin ag amrywiaeth eang o ddarpariaeth o wahanol fath, gan gynnwys gwarchodwyr plant, gofal dydd, gofal plant y tu allan i'r ysgol a darpariaeth chwarae mynediad agored. Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol wedi'u cynllunio i helpu darparwyr a lleoliadau i fodloni'r rheoliadau sy'n berthnasol i'r gwasanaeth maent yn ei ddarparu a rhaid i bob person cofrestredig roi sylw iddynt.
- 1.2 Mae'n ofynnol i leoliadau gofal plant sy'n gofalu am blant hyd at 12 oed gofrestru yn unol â Rhan 2 (Gwarchod Plant a Gofal Dydd i Blant) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd) a'i reoliadau cysylltiedig.
- 1.3 Er mwyn sicrhau bod plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel a phriodol, mae lleoliadau gofal plant yn destun trefniadau cofrestru, rheoleiddio ac arolygu.
- 1.4 Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn rheoleiddio ac yn arolygu darpariaeth gofal plant ar ran Llywodraeth Cymru yn unol â rheoliadau, y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'i fframwaith arolygu ei hun.

### **Pam bod angen adolygid?**

- 1.5 Cynhaliwyd yr adolygiad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol am nifer o resymau, gan gynnwys:
- Ni fu unrhyw adolygiad cynhwysfawr o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ers 2010 er gwaethaf newidiadau sylweddol yn y sector, gan gynnwys cynyddu'r terfyn oedran uchaf ar gyfer cofrestriad gofal plant o 8 i 12 oed yn 2016;
  - Dangosodd canfyddiadau'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2015 ar gynyddu'r terfyn oedran uchaf ar gyfer rheoleiddio gofal plant a

newidiadau cysylltiedig i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol fod awydd am adolygiad ehangach o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol;

- Gwnaed ymrwymiad yn ymateb Llywodraeth Cymru i ymgynghoriad 2015 y byddai swyddogion yn ystyried y ffordd orau o fynd i'r afael â'r materion ehangach a godwyd o ran y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.
- Drwy waith ymgysylltu pellach â sefydliadau gofal plant drwy'r <sup>2</sup>Gweithgor Gofal Plant, cafwyd tystiolaeth fanylach am bryderon penodol o ran y Safonau Gofynnol Cenedlaethol;
- Mae'r broses o ddatblygu'r Cynnig Gofal Plant<sup>3</sup> wedi tynnu sylw at lawer o faterion rheoleiddiol a wynebir gan ddarparwyr;
- Yn sgil newidiadau i'r ffordd y mae AGC yn rheoleiddio ac yn arolygu'r sector gofal cymdeithasol ers cyflwyno Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, tynnwyd sylw at y posibilrwydd o ddull gwahanol o reoleiddio ar gyfer y sector gofal plant

1.6 Mewn trafodaethau â chydweithwyr polisi a chydweithwyr yn AGC ar gychwyn yr adolygiad, penderfynwyd mai diben yr adolygiad oedd ystyried a oedd y safonau yn addas at eu diben wrth helpu i sicrhau'r canlyniadau canlynol:

- Bod gofal plant o ansawdd ar gael, sy'n hygyrch, yn fforddiadwy, yn gynaliadwy ac yn hyblyg;

---

<sup>2</sup> Sefydlwyd y Gweithgor Gofal Plant yn 2014 er mwyn cefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisi gofal plant, drwy gael cyngor arbenigol gan randdeiliaid mewnol ac allanol. Roedd yn canolbwyntio'n benodol ar newidiadau posibl i'r Aseidiadau Digonolrwydd Gofal a'r broses o gofrestru darpariaeth gofal plant. Cyfarfu'r grŵp ddiwethaf yn 2016. Roedd yr aelodau yn cynnwys cynrychiolwyr o'r canlynol:

- Cwllwm, sef consortiwm gofal plant yn y trydydd sector sy'n cynnwys 5 sefydliad gofal plant a chwarae blaenllaw
- Chwarae Cymru, sef yr elusen genedlaethol dros chwarae plant
- AWARE (Cymdeithas Cynrychiolwyr Partneriaethau Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Cymru Gyfan)
- Gwasanaeth i Deuluoedd,
- CLILC (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru),
- AGC (Arolygiaeth Gofal Cymru)
- Llywodraeth Cymru
- Canolfan Byd Gwaith

<sup>3</sup> Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gynnig 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant a ariennir i rieni sy'n gweithio sydd â phlant 3 a 4 blwydd oed yng Nghymru, a hynny am 48 wythnos y flwyddyn. Cafodd y Cynnig ei brofi mewn rhannau o Gymru o fis Medi 2017, ac mae wedi bod ar gael ledled Cymru ers mis Ebrill 2019.

- Bod rhieni yn sicr bod eu plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel, gofalgar ac o ansawdd da sy'n diwallu anghenion y plentyn;
- Bod gweithlu gofal plant cynaliadwy, sy'n tyfu, wedi'i gefnogi gan fynediad at hyfforddiant hanfodol a datblygiad proffesiynol parhaus;
- Bod busnesau ffyniannus, cynaliadwy yn cael eu creu nad ydynt yn destun gor-reoleiddio sy'n creu beichiau a biwrocratiaeth.

## 2. Methodoleg a chyd-destun

2.1 Cynhaliwyd yr adolygiad gan swyddogion Llywodraeth Cymru dros gyfnod o ddwy flynedd rhwng 2017-2019. Roedd yn cynnwys y canlynol;

- Dadansoddiad o'r berthynas rhwng Rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol
- Ymchwil desg i lywio'r gwaith o ystyried safonau ac ymagweddau adrannau llywodraethol eraill y DU at reoleiddio gofal plant a chwarae
- Ystyried y berthynas rhwng Fframwaith Arolygu AGC a'r cynlluniau ansawdd a weithredir gan awdurdodau lleol unigol a sefydliadau gofal plant a chwarae
- Trafodaethau â chydweithwyr polisi mewnol
- Ymgysylltu ac ymgynghori ag AGC, Estyn a 6 sefydliad cenedlaethol yn cynrychioli'r sector gofal plant a chwarae
- Cyfweiliadau â chynrychiolwyr o adrannau gofal plant a chwarae 12 awdurdod lleol
- Adolygiad o'r ymatebion i Ymgynghoriad 2015 ar ymestyn y gwaith o reoleiddio gofal plant

### **Dadansoddiad o'r berthynas rhwng Rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

2.2 Rhaid i ddarparwyr gofal plant cofrestredig gydymffurfio â Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2016. Mae'r Rheoliadau hyn wedi'u

cynllunio i sicrhau bod plant mewn lleoliadau gwarchod plant a gofal dydd cofrestredig yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a phriodol. Maent yn ymdrin ag amrywiaeth eang o feysydd gan gynnwys sefydlogrwydd a chymwysterau staff, diogelu, iechyd a llesiant, rheoli ymddygiad ac addasrwydd y safle. Bwriedir i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol helpu darparwyr i fodloni'r rheoliadau. Rhaid i ddarparwyr ystyried y safonau sy'n ymwneud â'r math o ofal a ddarperir.

2.3 Er mwyn llywio'r adolygiad a deall y berthynas rhwng y rheoliadau a'r safonau, cynhaliwyd ymarfer mapio yn cymharu'r rheoliadau a'r safonau. Cafodd pob un o'r rheoliadau sy'n ymwneud â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ei ystyried er mwyn deall sut roedd yn cael ei adlewyrchu yn nhermau safonau penodol. Er bod cydberthynas uniongyrchol rhwng rheoliadau a safonau mewn rhai achosion, roedd eraill lle roedd y safonau'n llawer mwy manwl na'r rheoliadau roeddent yn ymwneud â nhw.

2.4 Er enghraifft, yn achos addasrwydd y staff neu'r cymarebau staffio - er nad yw'r rheoliadau yn mynd i fanylder am union gymwysterau neu niferoedd, ond mae'r safonau'n nodi'r wybodaeth benodol am gymwysterau a'r gofynion hyfforddi staff, a chymarebau yn ymwneud â natur lleoliadau ac oedran y plant. Yn yr un modd, yn nhermau addasrwydd yr amgylchedd, mae'r safonau'n rhoi manylion am y gofynion o ran isafswm y lle sydd ei angen i blant yn y lleoliad a pha ardaloedd o eiddo y gellir eu dynodi i gael eu defnyddio. Mae'r safonau hefyd yn rhoi mwy o fanylion am gyfle cyfartal, trefniadaeth lleoliadau, cyfleoedd chwarae a gofynion dysgu a diogelwch.

2.5 Er bod llawer o'r gofynion ychwanegol sydd wedi'u cynnwys yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ymwneud â gofynion rheoleiddiol ehangach, codau ymarfer, fframweithiau cymwysterau cydnabyddedig ac arfer da, roedd achosion lle roedd y safonau'n ymddangos yn rhy rhagnodol.

2.6 Bu'r ymarfer mapio hwn o gymorth i ystyried faint o gyfle sydd i wneud newidiadau i'r safonau, os oes angen, heb orfod sicrhau newidiadau rheoleiddiol.

**Ystyried safonau ac ymagweddau adrannau eraill o'r llywodraeth at reoleiddio gofal plant a chwarae**

2.7 Mae gan weinyddiaethau eraill y DU safbwyntiau rheoleiddiol gwahanol o ran cofrestru gofal plant, sy'n golygu ei bod yn anodd eu cymharu'n uniongyrchol â'r sefyllfa yng Nghymru. Fodd bynnag, er mwyn llywio'r adolygiad, rydym wedi edrych ar y dulliau a fabwysiadwyd gan y gweinyddiaethau eraill er mwyn helpu i ddeall rhesymeg eu hymagweddau gwahanol ac ystyried sut y caiff gwaith rheoleiddio ei reoli mewn mannau eraill. Mae gennym hefyd ddi-ddordeb yn y gwaith y mae gweinyddiaethau eraill wedi'i wneud neu wrthi'n ei wneud er mwyn sicrhau bod eu safonau'n aros yn addas at eu diben.

2.8 Daeth safonau newydd ("y safonau) *Llywodraeth yr Alban, Health and Social Care Standards, My Support, My Life*, i rym o fis Ebrill 2018 ymlaen. Roedd y rhain yn disodli'r 23 o Safonau Gofal Cenedlaethol blaenorol gydag un set gyffredinol newydd o safonau ar gyfer pob gwasanaeth iechyd a gofal. Mae'r safonau'n adlewyrchu'r ffordd y dylai pawb ddisgwyl cael eu trin wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal a chymorth. Mae'r safonau'n berthnasol i bob gwasanaeth a reoleiddir gan yr Arolygiaeth Gofal, gan gynnwys gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys gofal dydd i blant, ond nid yw'n gyfyngedig iddo, megis meithrinfeydd, grwpiau chwarae a chlybiau ar ôl ysgol, a gwasanaethau gwarchod plant.

2.9 Nid yw'r safonau'n disodli deddfwriaeth bresennol, sy'n nodi'r gofynion ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir, ond yn hytrach, yn ei hategu. Anogir lleoliadau nad ydynt yn rhai cofrestredig i ddefnyddio'r safonau fel canllaw ar gyflawni gofal o ansawdd uchel.

2.10 Datblygwyd y Safonau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn dilyn adolygiad helaeth o'r Safonau Gofal Cenedlaethol blaenorol, a gyflwynwyd yn 2002, ac nid oeddent wedi cael eu hadolygu ers hynny. Cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ei bwriad i adolygu'r Safonau Gofal Cenedlaethol a chynhaliodd ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn casglu barn ar y ffordd orau o wneud hyn.

2.11 Yn dilyn ymgynghoriad, rhoddwyd ystyriaeth i ddatblygu safonau newydd er mwyn ymdrin â materion sy'n gyffredin i bob gwasanaeth, megis ansawdd y rhyngweithio; rheoli ac arwain; a sicrwydd ansawdd. Ystyriwyd hefyd anghenion grwpiau penodol y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal. Ar ôl hynny, gosodwyd y dasg o arwain grŵp datblygu i'r Arolygiaeth Gofal a Healthcare Improvement

Scotland. Roedd aelodau'r grŵp yn cynnwys rheoleiddwyr o faes iechyd a gofal cymdeithasol, cymdeithasau proffesiynol, sefydliadau darparu, awdurdodau lleol a sefydliadau defnyddwyr gwasanaeth.

2.12 Ysgrifennir y safonau gyda mwy o bwyslais ar hawliau dynol a llesiant personol. Mae'r broses graffu ac arolygu gwasanaethau yn newid yn yr Alban i adlewyrchu'r safonau, lle bydd arolygiadau bellach yn ystyried anghenion, dewisiadau a phrofiadau unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth, yn hytrach na dim ond cadarnhau bod gwasanaeth yn cydymffurfio â mewnbynnau i bawb.

2.13 Mae'r Arolygiaeth Gofal yn ystyried y safonau er mwyn llywio, craffu a sicrhau ansawdd eu swyddogaethau arolygu, ac wrth wneud penderfyniadau am wasanaethau gofal sydd wedi'u cofrestru neu'n gwneud cais i gofrestru. Mae'r Arolygiaeth Gofal wrthi'n datblygu fframweithiau ansawdd hunan-werthuso ar gyfer gwasanaethau cofrestredig i'w helpu i fyfrio ar ba mor dda y maent yn darparu gwasanaethau, ac i nodi lle y gellir gwneud gwelliannau ar gyfer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau.

2.14. Lle caiff canolfannau eu hariannu ar gyfer addysg cyn ysgol, mae dangosyddion ansawdd *The Child at the Centre* a *Curriculum Framework for Children 3-5* hefyd yn helpu i ddisgrifio disgwyliadau cenedlaethol.

2.15 Caiff dull 'niwtral o ran y darparwr', lle mae'r cyllid yn dilyn y plentyn (*Funding Follows the Child*) ei gyflwyno wrth i'r hawliad estynedig gael ei gyflwyno'n raddol yn 2020. Caiff y dull o weithredu ei ategu gan Safon Genedlaethol y bydd yn rhaid i bob darparwr sy'n cyflenwi'r oriau a ariennir ei bodloni, p'un a yw'n ddarparwr sector cyhoeddus, sector preifat neu drydydd sector. Bydd hyn yn rhoi tawelwch meddwl i rieni a gofalwyr y bydd unrhyw ddarparwr sy'n cynnig yr oriau a ariennir yn gallu cynnig profiad ELC o ansawdd uchel i'w plentyn.

2.16 Bydd y Safon Genedlaethol yn cwmpasu ystod eang o feini prawf gan gynnwys staffio, arweinyddiaeth a rheolaeth, yr amgylchedd ffisegol, datblygiad sgiliau gwybyddol y plentyn, cynhwysiant, iechyd a llesiant, a hunan-werthuso a gwella.

## **Gogledd Iwerddon**

2.17 Lluniodd **Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon** ei *Minimum Standards for Day Care and Childminding for Children Under Age 12* yn 2012 a ddiwygiwyd ym mis Hydref 2018. Mae'r Bwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd wedi llunio *Implementation Guidance* er mwyn helpu darparwyr i fodloni'r safonau. Mae'r ddogfen ganllaw hon yn cefnogi'r broses o ddehongli'r Safonau Gofynnol a'u rhoi ar waith.

2.18 Mae Ymddiriedolaethau iechyd a Gofal Cymdeithasol (HSCT) yn gyfrifol am gofrestru ac arolygu gwasanaethau gwarchodwyr plant, darparwyr gofal dydd llawn a darparwyr gofal sesiynol, yn erbyn gofynion deddfwriaethol. Datblygwyd y safonau i egluro'r gofynion hyn ac i sicrhau dull rhanbarthol o gofrestru ac arolygu. Golyga hyn y gall plant a'u rhieni sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn, ynghyd â'r darparwyr gwasanaeth, fod yn hyderus y caiff pob gwasanaeth ei fesur yn erbyn yr un meincnod.

2.19 Caiff y safonau gofynnol eu hystyried fel y lefel ofynnol o wasanaeth y mae'n rhaid ei darparu er mwyn pasio arolygiad a chael cofrestru gydag Ymddiriedolaeth HSC. Ceir 16 o safonau gofynnol y mae'n rhaid i ddarparwyr cofrestredig gydymffurfio â nhw a chânt eu grwpio o dan 4 pennawd:

- Ansawdd y Gofal
- Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth
- Ansawdd yr Amgylchedd Ffisegol
- Ansawdd Monitro a Gwerthuso

2.20 Mae pumed adran yn amlinellu'r polisiâu a'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i ddarparwyr cofrestredig eu cael

## **Lloegr**

2.21 Yn Lloegr, mae'r safonau sy'n rheoleiddio gofal plant yn dibynnu ar oedran y plentyn a natur y lleoliad y mae'r plentyn yn ei fynychu, fel a ganlyn:



- I blant 0-5 mlwydd oed, rhaid i ddarparwyr gofal plant ymuno â'r **Gofrestr Blynyddoedd Cynnar** a bodloni fframwaith statudol yr Adran Addysg ar gyfer cyfnod sylfaen y blynyddoedd cynnar – sy'n nodi'r safonau ar gyfer dysgu, datblygu a gofal, diogelu, lles, dysgu a datblygu;
- I blant dros 5 mlwydd oed, gall darparwyr gofal plant ymuno â'r **Gofrestr Gofal Plant** <sup>4</sup> y mae iddi ddwy ran:
  - **Gorfodol** i ddarparwyr sy'n gofalu am blant o 1 Medi ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 5 oed hyd at ei ben-blwydd yn 8 oed;
  - **Gwirfoddol** i ddarparwyr sy'n gofalu am blant 8 oed a throsodd, ac i ddarparwyr sy'n dewis cofrestru o'u gwirfodd (er enghraifft, nanis).

2.22 Rhaid i bob darparwr gofal plant cofrestredig gydymffurfio ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys cyfreithiau iechyd a diogelwch, gwahaniaethu ar sail anabledd, hylendid bwyd a gofynion tân a chynllunio, ynghyd â'r gofynion ychwanegol y mae'n rhaid iddynt eu bodloni gan ddibynnu ar natur y gwasanaeth y byddant yn ei ddarparu a pha gofrestr y maent wedi ymuno â hi.

### **Ansawdd a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

2.23 Fel rhan o'r adolygiad, ystyriwyd hefyd y berthynas rhwng Fframwaith Arolygu AGC a'r cynlluniau ansawdd a weithredir gan awdurdodau lleol unigol a sefydliadau gofal plant a chwarae. Gwnaethom hefyd ystyried safonau ansawdd mwn perthynas â lleoliadau Dechrau'n Deg a'r lleoliadau hynny a ariennir i ddarparu darpariaeth Meithrin y Cyfnod Sylfaen.

### **Fframwaith Arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru**

2.24 Ystyriwyd canllawiau a Fframwaith Arolygu AGC (Fframwaith AGC) er mwyn deall y berthynas rhwng y fframwaith a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Dyma bedair thema fframwaith AGC:

<sup>4</sup> <https://www.gov.uk/guidance/childminders-and-childcare-providers-register-with-ofsted/the-ofsted-registers> A welwyd ar 4 Gorffennaf July 2019

1. Llesiant
2. Gofal a Datblygu
3. Yr Amgylchedd
4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

2.25 Mae'r fframwaith yn cwmpasu pob un o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol o fewn thema Arweinyddiaeth a Rheolaeth, yn ogystal â themâu eraill gan ddibynnu ar y safon benodol. Fel rhan o'u harolygiad, mae AGC yn dyfarnu graddau Rhagorol, Da, Digonol a Gwael ar gyfer pob un o'r pedair thema. Mae'r lleoliadau hynny nad ydynt yn bodloni gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cael gradd 'Gwael', tra bod y rhai sydd ond yn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cael gradd 'Digonol'.

2.26 Dangosodd ein hystyriaeth o'r fframwaith a'i berthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol y canlynol:

- Mae Fframwaith AGC yn rhoi enghreifftiau o'r hyn sy'n gyfystyr ag arfer da;
- Ceir rhai achosion lle mae'r arfer da yn adlewyrchu'r hyn a nodir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Golyga hyn fod potensial i ddarparwyr ddrysu o ran y pethau ychwanegol y dylent ei wneud y tu hwnt i ofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol er mwyn cael gradd 'Da', o ystyried mai dim ond gradd 'Digonol' a geir am gydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol;
- Ceir tensiwn rhwng y radd ddigonol a roddir am gydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, a dyhead llawer o'r safonau i ddarparu darpariaeth o ansawdd;
- Mae'r Fframwaith yn cynnwys atodiad â dolenni i'r canllawiau statudol a chanllawiau arfer gorau y byddai'n ddefnyddiol eu hychwanegu at y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

### **Fframweithiau sicrhau ansawdd darparwyr gofal plant a chwarae**

Isod, rhoddir trosolwg o sefydliadau gofal plant a chwarae'r trydydd sector sy'n cynnig fframweithiau sicrhau ansawdd neu asesu.

## **Blynyddoedd Cynnar Cymru - Ansawdd i Bawb**

2.27 Sefydliad gofal plant cenedlaethol trydydd sector yw Blynyddoedd Cynnar Cymru, sy'n rhoi cymorth i'r sector gofal plant cyn ysgol yng Nghymru. Mae ei gynllun sicrhau ansawdd Ansawdd i Bawb (QfA) wedi bod ar waith ers 2011 ac mae ar gael i aelodau a'r rheini nad ydynt yn aelodau. Ei nod yw darparu dull cyson o weithredu i ddangos ansawdd ar draws darpariaeth gofal plant o bob math, ac ar gyfer plant o bob grŵp oedran. Mae'n cynnwys cwblhau ffurflen werthuso am y gwasanaeth dan sylw, wedi'i dilyn gan asesiad o'r ymarfer yn y gwasanaeth. Mae QfA yn broses barhaus sy'n cynnwys ailasesiadau blynyddol. Hunanwerthusiad byrrach yw'r broses ailachredu flynyddol, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cynlluniau gwella ansawdd, a'r cynnydd a wneir ganddynt, ac unrhyw newidiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

2.28 Mae'r asesiad yn ystyried dwy brif thema:

- i. Perchenogaeth, arweinyddiaeth, rheolaeth a threfniadaeth
- ii. Yr amgylchedd ac arfer gweithredol - ansawdd y gofal, dysgu'r plant, chwarae a llesiant.

2.29 Ceir rhestr ddefnyddiol o ddolenni cysylltiedig hefyd ar ddiwedd y llyfryn cyfarwyddyd. Codir ffi (y mae ei lefel yn amrywio gan ddibynnu a yw'r darparwr yn aelod ai peidio) am y cyfarwyddyd, yr asesiad a'r ailachrediad blynyddol.

### **Mudiad Meithrin**

2.30 Sefydliad gwirfoddol yw'r Mudiad Meithrin sy'n arbenigo mewn rhoi cymorth i ddarparwr blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Safonau Serennog yw enw cynllun ansawdd Mudiad Meithrin, a'i ddiben yw gosod nodau a thargedau cyflawnadwy y gall pob Cylch Meithrin weithio tuag atynt. Mae'r cynllun yn cynnig strwythur i alluogi pwyllgorau a staff i werthuso eu gwasanaeth mewn ffordd wrthrychol.

2.31 Mae cynllun ansawdd MM yn cynnwys 3 lefel wahanol, fel y nodir isod:

### **Efydd –**

- Wedi'i gofrestru ag MM
- Wedi'i gofrestru ag AGC neu'n gweithio tuag at gofrestru (o fewn 12 mis)/ yn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol
- Yn cydymffurfio â pholisi iaith Gymraeg MM

### **Arian –**

- Dyfernir i Gylchoedd Meithrin sydd wedi dangos darpariaeth o ansawdd uwchlaw safon seren Efydd
- Bydd gofyn i Gylchoedd Meithrin gyflwyno portffolio i MM a gaiff ei arfarnu gan y Panel Dyfarnu Ansawdd a Safonau.
- Bydd y portffolio yn cynnwys amrywiaeth eang o dystiolaeth i gefnogi'r meysydd canlynol:
  - Llesiant y Plentyn
  - Profiadau Dysgu
  - Gofal a Datblygu
  - Arwain a Rheoli
  - Yr Iaith Gymraeg
  - Yr Amgylchedd
  - Yr Addysgu a'r Asesu

### **Aur –**

- Dyfernir i Gylchoedd Meithrin sydd wedi dangos y safon ansawdd uchaf bosibl sy'n rhagori ar ofynion Safonau Efydd ac Arian.
- Bydd Cylch Meithrin yn dangos arloesedd yn y gwasanaeth y mae'n ei gynnig a chaiff ei gydnabod fel darparwr gofal ac addysg o'r safon uchaf.
- Caiff ei ddefnyddio gan MM fel enghraifft o ragoriaeth ac arfer sy'n arwain y sector. Caiff ei arolygu gan arolygydd annibynnol.

Cyn y gellir dyfarnu Safon Seren Aur, mae'n rhaid cael arolygiad gan arolygydd annibynnol, a bydd ffi yn daladwy.

## NDNA

2.32 Y Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA) yw'r elusen genedlaethol sy'n cynrychioli meithrinfeydd dydd ledled y DU. Mae cynllun ansawdd NDNA 'Quality Counts' wedi'i ddylunio i ddarparu fframwaith ar gyfer ymsefydlu ansawdd a hunanwerthuso mewn lleoliadau gofal plant. Mae'r cynllun yn cynnwys tri llwybr, gyda gwahanol gostau i bob un:

- i. 'Journey to Excellence' sy'n helpu ymarferwyr i ddiffinio gweledigaeth o ansawdd yn eu lleoliad, a'i rhoi ar waith.
- ii. Archwiliad ac Adolygiad Ar-lein, sy'n rhoi mynediad i system ar-lein sy'n cynnwys archwilio, dogfennau enghreifftiol a gwiriadau gydag adborth ar-lein sy'n nodi cryfderau a chamau gweithredu ar gyfer gwella.
- iii. Marc ardystio sy'n cynnwys mynediad at fentor ac asesiad diwrnod llawn ar y safle yn ogystal â'r dogfennau y cyfeirir atynt yn opsiwn 2 uchod.

2.33 Mae'r safonau y mae'n ofynnol i leoliadau eu bodloni yn cwmpasu'r meysydd canlynol:

- Chwarae a dysgu
- Iechyd, diogelwch a llesiant
- Arweinyddiaeth a rheolaeth
- Gweithlu

2.34 O fewn pob adran, ceir graddfa sgorio o 1-3 yn erbyn amrywiaeth o ddatganiadau yr ymddengys eu bod yn cydblethu â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

### Graddfa sgorio

1 = Yn gweithio tuag at y datganiad – rydym wedi bodloni rhai agweddau ar y datganiad ond mae angen gwella ein hymarfer o hyd

2 = Yn bodloni'r datganiad – rydym yn bodloni'r datganiad i raddau helaeth ond rydym wedi nodi rhai meysydd i'w gwella ymhellach

3 = Wedi ymsefydlu – rydym yn bodloni'r safonau'n barhaus ac mae rhywfaint o nodweddion rhagorol i'w gweld yn ein dull ymarfer

2.35 O edrych arno'n fras, ymddengys fod cynllun NDNA yn canolbwyntio ar ba mor dda y caiff safonau eu datblygu, yn hytrach na disodli/dyblygu safonau.

### **PACEY Cymru**

2.36 Sefydliad trydydd sector yw PACEY Cymru sy'n rhoi cymorth i warchodwyr plant, gweithwyr meithrinfeydd a nanis. Nid oes ganddo gynllun sicrhau ansawdd ar hyn o bryd. Mae o'r farn, ers i AGC gyflwyno'r graddau, fod barnu ansawdd yn rôl sy'n perthyn yn gliriach i AGC fel y rheoleiddiwr, a bod risg y gallai statws gradd/dyfarniad a ddarperir gan gynlluniau sicrhau ansawdd eraill wrthdaro â'r rheini a roddir gan AGC. Ym marn PACEY Cymru, rôl y sefydliad darparu yw cefnogi darparwyr i wella'u graddau drwy ddefnyddio ymarfer myfyriol a deall gwerth DPP er mwyn dilyn llwybr o wella ansawdd yn barhaus. Ar hyn o bryd, mae PACEY Cymru yn darparu gwybodaeth, hyfforddiant, adnoddau a chyfarwyddyd i aelodau am wella ansawdd ac mae hyn yn esblygu'n barhaus i ddiwallu anghenion y lleoliadau y mae yn eu cefnogi.

### **Clybiau Plant Cymru (CPCKC)**

2.37 Sefydliad trydydd sector Cymru gyfan yw CPCKC sy'n helpu i sefydlu, datblygu a chefnogi clybiau gofal plant y tu allan i'r ysgol. Nid oes ganddo gynllun sicrhau ansawdd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae wedi cytuno â Blynyddoedd Cynnar Cymru y gall eu haelodau ddefnyddio ei gynllun Ansawdd i Bawb.

### **Chwarae Cymru**

2.38 Nod cyhoeddiad Chwarae Cymru *Yr Hawl Cyntaf ... fframwaith ar gyfer asesu ansawdd gwaith chwarae*<sup>5</sup> yw galluogi gweithwyr chwarae, ac unrhyw oedolion eraill sydd â diddordeb mewn chwarae plant, i ddadansoddi'r amgylcheddau chwarae y maent yn eu gweithredu, drwy arsylwi a myfyrio arnynt. Mae'n gosod fframwaith i asesu ansawdd yr hyn sy'n cael ei ddarparu a'i brofi.

Mae'n caniatáu i'r defnyddwyr archwilio:

- natur yr hyn y mae plant yn ei wneud
- y rolau datblygiadol a therapiwtig posibl sydd gan chwarae

---

<sup>5</sup> <http://www.chwaraecymru.org.uk/cym/hawlcyntaf>

- rolau a swyddogaethau'r gweithiwr chwarae (neu oedolyn arall)
- y ffordd fwyaf priodol o ymyrryd yn y broses chwarae
- iaith a chysyniadau gwaith chwarae

Bwriedir i *Yr Hawl Cyntaf...* ategu gweithdrefnau sicrhau ansawdd eraill.

### **Awdurdodau Lleol a Gwmpesir**

2.39 Gofynnwyd i awdurdodau lleol a oeddent yn defnyddio cynlluniau ansawdd ar gyfer lleoliadau gofal plant yn eu hardaloedd ar hyn o bryd, ac oes oeddent, fe'u gwahoddwyd i'w rhannu â ni.

2.40 Ymddengys bod darlun cymysg ledled Cymru. Nid oes gan rai awdurdodau lleol gynlluniau pwrpasol ac maent yn cefnogi darparwyr gan ddefnyddio'r cynlluniau a ddarperir gan y sefydliadau gofal plant a nodir uchod. Mae eraill yn defnyddio'u cynlluniau eu hunain. Yn ôl ein hasesiad, ymddengys bod y rhain yn ymdrechu i ategu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ond yn cynnwys elfennau ychwanegol ar wahân, er enghraifft, mae rhai cynlluniau yn cynnwys elfennau i gwmpasu addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae awdurdodau lleol eraill yn sôn am ddefnyddio elfennau o'r Raddfa Sgorio Amgylcheddol ar gyfer Babanod a Phlant Bach (ITERS) a'r Raddfa Sgorio Amgylcheddol ar gyfer Plentyndod Cynnar (ECERS) i asesu ansawdd. Nod datganedig y graddfeydd hyn yw asesu ansawdd y rhyngweithio rhwng staff a phlant, rhieni ac oedolion eraill ac ymhlith y plant eu hunain, yn ogystal â nodweddion eraill fel yr amgylchedd, yr amserlen a'r deunyddiau sy'n cefnogi'r rhyngweithio hwn. Mae rhai awdurdod lleol wedi symud i ddefnyddio adnodd y Raddfa Cyd-feddwl Parhaus a Lles Emosiynol (SSTEW) y disgrifir ei fod yn canolbwyntio ar rhyngweithio rhwng oedolion/plant, gyda'r nod o ddatblygu cydberthnasau cryf, cyfathrebu effeithiol ac agweddau ar hunanreoleiddio.

2.41 Dywedodd un awdurdod ei fod wrthi'n ceisio gwella ansawdd yn y Sector Preifat, Gwirfoddol ac Annibynnol drwy ei raglen gwella ansawdd. Mae wedi llunio dogfennau mewn partneriaeth â'i Dîm Diogelu ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, sydd, yn eu barn nhw, yn helpu darparwyr i fodloni gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ogystal â darparu canllawiau ychwanegol ar ddiogelu, ADY, Arwain a Rheoli, Llesiant a Dysgu a Chwarae.

## Dechrau'n Deg

2.42 Dechrau'n Deg yw rhaglen Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru a dargedir at deuluoedd â phlant o dan 4 blwydd oed mewn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.

2.43 Daw elfennau craidd y rhaglen o amrywiaeth o opsiynau y dangoswyd eu bod yn dylanwadu ar ganlyniadau cadarnhaol i blant a'u teuluoedd. Mae'r rhain yn cynnwys gofal plant wedi'i ariannu, o ansawdd da i blant 2-3 blwydd oed sy'n elfennau hanfodol i raglen Dechrau'n Deg. Mae 3 fesur allweddol o ansawdd mewn lleoliad Dechrau'n Deg llwyddiannus:

- **Amgylchedd o ansawdd uchel** - mae safon yr amgylchedd ffisegol yn cael effaith ar ansawdd y ddarpariaeth gofal plant. Dylai llety ac adnoddau lleoliadau Dechrau'n Deg fod o'r safon uchaf, er mwyn sicrhau'r amgylchedd dysgu gorau ar gyfer plant, lleoedd priodol i'r staff addysgu a man lle y bydd rhieni'n teimlo'n gyfforddus a'u bod yn cael croeso. Gall cyfleusterau gwael lesteirio profiadau plant, a allai gael effaith andwyol ar eu datblygiad.
- **Pobl o ansawdd uchel** - rhaid i'r staff a benodir i weithio mewn lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg fod o'r safon uchaf er mwyn cyflwyno darpariaeth o ansawdd uchel. Er mwyn gwella datblygiad plant, dylai staff fod wedi cael eu hyfforddi'n dda, a dylai datblygiad staff sicrhau parhauster, sefydlogrwydd a gwella ansawdd. Yr un yw'r gymhareb oedolion i blant mewn lleoliadau Dechrau'n Deg ag a geir mewn lleoliadau gofal plant cofrestredig eraill, ond ni ellir cyfrif gwirfoddolwyr ymhlith nifer yr oedolion fel rhan o'r gymhareb oedolion i blant isaf mewn lleoliad Dechrau'n Deg.
- **Profiad o ansawdd uchel i'r plentyn** - Mae angen amgylchedd gofalgar, ysgogol ar blant. Dylai'r amgylchedd gynnwys ardaloedd dan do ac awyr agored, dylai fod yn ddiogel, ac ar yr un pryd yn heriol, lle gall plant fod yn hapus a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel unigolion. Dylai plant ddysgu drwy ddarganfod a phrofiadau personol, yn seiliedig ar chwarae, a dylid annog annibyniaeth ac arbrosi.  
Mae gwasanaethau gofal plant Dechrau'n Deg yn rhoi pwyslais ar ddarparu



profiadau cyfoethog sy'n adlewyrchu'r mathau o athroniaethau addysgegol a gaiff eu cyflwyno yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Caiff yr ansawdd mewn lleoliadau ei reoli gan Athrawon Ymgynghorol Dechrau'n Deg, sy'n gyfrifol am lywio safonau mewn lleoliadau gofal plant a chefnogi staff gofal plant Dechrau'n Deg. Disgwylir bod gan bob lleoliad Dechrau'n Deg system Sicrhau Ansawdd ar waith sy'n cael ei hadolygu'n annibynnol.

## **Cyfnod Sylfaen**

2.44 Y Cyfnod Sylfaen yw'r polisi addysg blynyddoedd cynnar i blant 3 i 7 oed yng Nghymru. Mae'n seiliedig ar yr egwyddor y dylai darpariaeth blynyddoedd cynnar gynnig sylfaen gadarn ar gyfer dysgu yn y dyfodol drwy gwricwlwm sy'n briodol i ddatblygiad. Daw â mwy o gysondeb a pharhauster i addysg plant ar gyfnod hollbwysig yn eu datblygiad.

2.45 Mae'r Cyfnod Sylfaen yn rhoi pwyslais mawr ar sicrhau bod plant yn dysgu drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol. Rhoddir cyfleoedd i blant ifanc gael profiadau personol drwy chwarae a chymryd rhan yn hytrach nag addysg fwy ffurfiol a chwblhau ymarferion mewn llyfrau. Mae'n annog plant i fod yn greadigol, yn ddychmygus a chael hwyl ac mae'n rhoi'r plentyn wrth wraidd y broses ddysgu.

2.46 Gall darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 3 a 4 blwydd oed gael ei chyflwyno mewn ysgol (lleoliadau a gynhelir) neu leoliadau gofal plant nas cynhelir.

2.47 Disgwylir i bob ysgol a lleoliad a ariennir i gyflwyno darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen gadw at Fframwaith y Cyfnod Sylfaen sy'n nodi'r cwricwlwm a'r deilliannau, gan ganolbwyntio ar ddysgu arbrofol, ymwneud gweithredol a datblygu'r canlynol ar gyfer pob plentyn

- sgiliau a dealltwriaeth
- llesiant personol, cymdeithasol, emosiynol, corfforol a deallusol er mwyn datblygu'r plentyn fel unigolyn crwn

- agweddau cadarnhaol at ddysgu er mwyn iddynt ei fwynhau a bod yn awyddus i barhau i'w wneud
- hunan-fri a hunanhyder i arbrofi, ymchwilio, dysgu pethau newydd a ffurfio cydberthnasau newydd
- sgiliau creadigol, mynegi ac arsylwi er mwyn annog eu datblygiad fel unigolion â gwahanol ffyrdd o ymateb i brofiadau
- gweithgareddau yn yr awyr agored lle gallant gael profiad personol o ddatrys problemau yn y byd go iawn a dysgu am gadwraeth a chynaliadwyedd.

2.48 Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol hefyd yn rhoi cyfrifoldeb ar ddarparwyr cofrestredig i sicrhau bod egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a'i saith maes dysgu yn cael eu deall a'u cymhwyso'n briodol mewn lleoliadau, p'un a ydynt wedi'u hariannu i gyflwyno darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen ai peidio.

2.49 Bydd Cwricwlwm i Gymru 2022 yn disodli'r cwricwlwm Cyfnod Sylfaen cenedlaethol presennol (ond bydd yn cyd-fynd ag addysgeg y Cyfnod Sylfaen) a chaiff ei gyhoeddi i'w ddefnyddio fis Ionawr nesaf, cyn dod yn ofyniad cyfreithiol o 2022 ymlaen. Un continwrm heb unrhyw gyfnodau neu gamau fydd y cwricwlwm nesaf, felly ni fydd brand 'Y Cyfnod Sylfaen' yn bodoli mwyach. Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i ddiogelu egwyddorion ac ethos y Cyfnod Sylfaen yn y cwricwlwm newydd.

### **Cyd-destun polisi ehangach**

2.50 Yn ystod yr adolygiad, bu nifer o ddatblygiadau polisi y mae'n rhaid eu hystyried o ran eu heffaith ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

- **Plentyndod Cynnar, Addysg a Gofal (ECEC)** – dros y ddeng mlynedd nesaf, bydd y polisi hwn yn rhoi trefniadau ar waith er mwyn creu llwybr cyson drwy ofal ac addysg gynnar o 0-7 oed. Rhagwelir set gyffredin o ddisgwyliadau a phrofiadau yn ymwneud â gofal ac addysg gynnar o ansawdd uchel. Nod ECEC yw cael gwared ar y rhaniadau artiffisial rhwng addysg a gofal a darparu cysylltiad hanfodol i'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

Yn unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rydym wedi ystyried sut y gall canfyddiadau'r adolygiad nesaf helpu i lywio agenda ECEC, gan gadw mewn cof yr angen i unrhyw argymhellion neu gamau gweithredu sy'n deillio o'r adolygiad hwn gyd-fynd â dyheadau hirdymor.

- **Deddf Ariannu Gofal Plant (Cymru) 2019 - Ymateb i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg** - mewn ymateb i faterion a godwyd gan y Pwyllgor Cyfrifol yn ystod hynt y Bil, gwnaed ymrwymiad gan y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol i adolygu Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010. Mae'r Gorchymyn hwn yn nodi'r amgylchiadau lle na fyddai'n ofynnol i berson sy'n gofalu am blant hyd at 12 oed gofrestru a bod yn ddarostyngedig i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Daeth Cais am Dystiolaeth 12 wythnos ar y Gorchymyn i ben ym mis Mawrth 2019. Caiff y canfyddiadau eu trafod gyda rhanddeiliaid allweddol a'u hadrodd i'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystod Gwanwyn/Haf 2019. Mae'n bwysig bod unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio o'r adolygiad hwn yn cydblethu ag unrhyw waith a wneir o ganlyniad i'r Cais am Dystiolaeth.

- **Adolygiad Chwarae** - Cynhaliwyd trafodaethau cynnar rhwng Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr y sector chwarae ar gyfer adolygiad annibynnol posibl o'r tirlun chwarae. Er na chytunwyd ar yr amserlen eto, bwriedir i'r adolygiad gynnwys cymwysterau, materion gweithlu a'r berthynas rhwng chwarae a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.
- **Cymraeg 2050 - Miliwn o siaradwyr Cymraeg** – Amlygir pwysigrwydd y sector blynyddoedd cynnar yn y strategaeth Iaith Gymraeg, a nod Llywodraeth Cymru “ar gyfer ein darpariaeth yn y blynyddoedd cynnar yw cyrraedd sefyllfa lle mae plant dan bump oed wedi cael digon o gyswllt â'r Gymraeg i allu dechrau ar eu taith i fod yn siaradwyr Cymraeg rhugl”. Mae'r adolygiad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystyried y materion penodol

a wynebir gan ddarparwyr wrth gyfrannu at ddatblygiad iaith Gymraeg plentyn.

### 3. Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

#### Ymgysylltiad cychwynnol â sefydliadau gofal plant ac AWARE

3.1 Ddiwedd 2016, cyn i'r adolygiad gychwyn, gwnaethom ymgysylltu â'r Gweithgor Gofal Plant gynt (CWG - gweler troednodyn 2) er mwyn llywio ein dealltwriaeth o'r canlynol:

- effaith cynyddu'r terfyn oedran uchaf ar gyfer cofrestru gofal plant gorfodol yng Nghymru o 8 i 12 oed ar y sector gofal plant.
- a'r angen, os o gwbl, am unrhyw newidiadau i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

3.2 Croesawodd y CWG yr adolygiad arfaethedig o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Fel rhan o'n gwaith ymgysylltu cychwynnol, gofynnwyd cwestiynau penodol i'r CWG, gweler Atodiad 1, a oedd yn adlewyrchu rhai o'r materion allweddol a godwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus yn 2015 ar godi'r terfyn oedran uchaf ar gyfer cofrestru gofal plant gorfodol yng Nghymru o 8 i 12 oed. Yn benodol, gofynnwyd cwestiynau ynghylch cymesuredd ar gyfer cynlluniau chwarae adeg gwyliau, fformat y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, cynorthwywyr gwarchodwyr plant a materion yn ymwneud â'r cymwysterau sydd eu hangen er mwyn bodloni'r safonau.

3.3 Ar yr adeg honno, roedd barn gymysg ar rai materion, er enghraifft o ran y gofynion rheoleiddiol ar ddarpariaeth dymhorol, gyda rhai sefydliadau chwarae o blaid agwedd fwy cymesur er mwyn adlewyrchu'r amser cyfyngedig roedd gwasanaethau o'r fath ar waith. Fodd bynnag, nid oedd sefydliadau gofal plant eraill o blaid llai o reoliadau ar gyfer gweithgareddau gofal plant yn ystod cyfnodau gwyliau. Roeddent o'r farn ei bod yn hanfodol y dylid cadw at ganllawiau a safonau clir, ar gyfer darpariaeth o bob math, er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael ei ddiogelu. Er bod rhai yn cefnogi'r farn hon, cydnabuwyd hefyd yr her i ymarferwyr

gyflawni'r cymwysterau os oedd ond yn bosibl eu hasesu yn y gweithle ar adegau penodol o'r flwyddyn.

3.4 Lleisiwyd pryder cyffredinol am y lleoliadau hynny sy'n ceisio osgoi cofrestru drwy ddefnyddio'r eithriad gweithgareddau chwaraeon, a'r farn oedd na ddylai hyn fod yn gymwys oni bai bod y clwb yn gallu dangos cysylltiad â'r corff llywodraethu chwaraeon priodol. Codwyd hefyd yr angen am ganllawiau cliriach ynghylch y defnydd o gynorthwyr gwarchodwyr plant, yn benodol, sawl un y gallai gwarchodwr plant eu cyflogi, y cymwysterau y dylent feddu arnynt, sut y dylent gael eu goruchwylio, yr amser y gallent ei dreulio ar eu pen eu hunain gyda phlant a'r wybodaeth ategol y dylent ei darparu cyn iddynt gael eu cyflogi.

3.5 Ceisiodd y sefydliadau gofal plant fwy o eglurder hefyd ar gymwysterau a'r rhestr y dylai lleoliadau o bob math ei dilyn, gan gefnogi barn awdurdodau lleol o ran eglurder am y cymwysterau cymorth cyntaf sydd eu hangen er mwyn bodloni'r safonau, nifer y staff ddylai gael y cymhwyster a'r model darparu.

### **Ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol unigol**

3.6 Gwnaed gwaith ymgysylltu gyda staff polisi gofal plant mewn 12 o awdurdodau lleol ledled Cymru rhwng mis Mai a mis Hydref 2018, gan gynrychioli amrywiaeth eang o safbwyntiau. Yn gyffredinol, dywedodd awdurdodau lleol fod y sector chwarae a gofal plant yn gyfarwydd iawn â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ac yn cyfeirio atynt yn rheolaidd. Nododd ein trafodaethau gyda staff awdurdodau lleol heriau allweddol a wynebir gan ddarparwyr gofal plant a chwarae sy'n deillio o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, gan gynnwys sicrhau bod gan staff y cymwysterau cywir er mwyn bodloni'r safonau, yr anghysondeb canfyddedig yn y dull o weithredu a fabwysiedir gan arolygwyr unigol AGC wrth arolygu lleoliadau, y diffyg adborth a ddarperir gan AGC i awdurdodau lleol yn dilyn arolygiadau ac amwysedd rhai o'r safonau o gymharu â llymder safonau eraill. Cafodd y safon sy'n ymwneud â'r angen i leoliadau gael aelod ychwanegol o staff os bydd lleoliad gofal dydd wedi'i gofrestru ar gyfer 20 o blant neu fwy ei chrybwyll yn aml, gyda phryderon penodol am ei effaith ar ôl i'r cynnig gofal plant gael ei gyflwyno.

### 3.7 Gwahoddwyd awdurdodau lleol i awgrymu gwelliannau i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

- yr angen i edrych o'r newydd ar ddiogelu, gan gynnwys cyngor am y ddyletswydd Atal (yr angen i atal plant rhag cael eu denu i derfysgaeth) ac eglurder o ran i bwy y dylid rhoi gwybod am bryderon pan fydd materion diogelu posibl yn codi;
- yr angen i gael cyfarfodydd rheolaidd ag AGC ac awdurdodau lleol er mwyn rhannu pryderon. Awgrymwyd y gallai fod yn ddefnyddiol pe bai cynrychiolydd o'r awdurdod lleol yn mynd gydag AGC pan fydd yn cynnal arolygiad er mwyn iddo allu deall yn well y rhesymau dros benderfyniadau ac adborth a allai helpu i ddatblygu'r agenda ansawdd;
- cysylltiadau a chanllawiau cliriach rhwng fframwaith arolygu AGC a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol;
- mwy o bwyslais ar adolygiadau sicrhau ansawdd blynyddol y darparwr;
- yr angen i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol roi pwyslais ar hyfforddiant a DPP yn hytrach na chanolbwyntio'n gyfan gwbl ar sicrhau bod gan y staff y cymwysterau gofynnol;
- mwy o eglurder o ran y cymwysterau cymorth cyntaf, a hynny yn nhermau'r union gymwysterau sydd eu hangen ar staff a nifer y staff o fewn lleoliadau a ddylai feddu arnynt;
- atgyfnerthu'r datganiad o ddiben er mwyn rhoi eglurder am y gwasanaeth a ddarperir.

3.8 Er bod rhai awdurdodau lleol yn awgrymu dull mwy rhagnodol o ran rhai o'r safonau, roedd barn gyffredin hefyd y dylai dull mwy cymesur 'synnwyr cyffredin' fod yn gymwys i safonau eraill. Gwnaed cymariaethau â'r gwaith o reoleiddio ac arolygu'r sector gofal cymdeithasol o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), yn arbennig ffocws RISCA ar wella ansawdd a chanlyniadau.

3.9 Roedd trafodaethau eraill yn canolbwyntio ar b'un a ddylid cael canllawiau penodol i sector, fformat symlach, ymagwedd fwy hyblyg at gymarebau, eglurder o ran rôl cynorthwyyr gwarchodwyr plant a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ymhlith rhieni.

## **Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

3.10 Mae gan AGC rôl allweddol i'w chwarae mewn unrhyw adolygiad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r Arolygiaeth yn gyfrifol am gofrestru, arolygu ac adolygu'r sector gofal plant a chwarae ar ran Gweinidogion Cymru yn unol â rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

3.11 Ymgysylltwyd ag AGC yn rheolaidd er mwyn llywio cyfeiriad yr adolygiad hwn. O'r cychwyn cyntaf, mae AGC wedi annog rhoi ystyriaeth i ddull lle mae'r safonau'n rhoi mwy o ffocws ar ganlyniadau, gan edrych ar y ffordd y mae'r amodau a roddir ar ddarparwyr yn fuddiol i'r plentyn a'r rhieni.

3.12 Awgrymodd yr Arolygiaeth y dylid ystyried yr ymagwedd at ganllawiau a fabwysiedir i gefnogi Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA), fel rhan o'r adolygiad. Mae'r ddeddfwriaeth wedi'i chefnogi gan Ganllawiau Statudol ar gyfer darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol ar fodloni rheoliadau safonau gwasanaeth ac mae'n canolbwyntio ar ganlyniadau llesiant i bobl yn hytrach na safonau gofynnol.

3.13 Mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau cofrestredig gwasanaethau gofal cymdeithasol cofrestredig ac unigolion cyfrifol dynodedig fodloni gofynion y Ddeddf ac mae'r rheoliadau yn **rhoi sylw** i'r canllawiau ategol. Bwriedir i'r canllawiau eu helpu i ddeall sut y gallant fodloni gofynion y rheoliadau. Mae AGC yn defnyddio'r canllawiau hyn i lywio penderfyniadau o ran i ba raddau y mae darparwyr cofrestredig yn bodloni gofynion y rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf. Mae darparwyr gwasanaethau yn gyfrifol am benderfynu sut y caiff gofynion y rheoliadau eu bodloni gan roi ystyriaeth i anghenion unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth a datganiad o ddiben y gwasanaeth rheoleiddiedig. Pan na fydd darparwyr gwasanaethau cofrestredig ac unigolion cyfrifol yn dilyn y canllawiau hyn, rhaid iddynt ddarparu tystiolaeth bod eu dull gweithredu yn eu galluogi i fodloni gofynion y rheoliadau.

3.14 Fel rhan o'r ystyriaethau hyn, cynhaliwyd gweithdy gyda chydweithwyr AGC yn Llanfair ym Muallt ar 27 Chwefror 2018. Cafwyd adborth gan AGC ar feysydd lle

roedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn gweithio'n dda ac achosion lle roedd y safonau'n cyflwyno heriau i Arolygwyr.

3.15 Er bod AGC o'r farn bod y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn helpu i egluro i ddarparwyr sut y gallant fodloni rheoliadau ar gyfer eu lleoliad penodol, roedd yr Arolygiaeth o'r farn bod llawer o ffyrdd y gallent gael eu hatgyfnerthu er mwyn eu gwneud yn fwy defnyddiol.

- Cysylltiadau ag arfer da;
- Atgyfnerthu'r datganiad o ddiben ac ystyried a allai gofynion dogfennaeth cyfatebol eraill gael eu symleiddio, er enghraifft y cynllun gweithredu
- Darparu canllawiau mwy manwl i lywio'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal - efallai gyda thempled i ddarparwyr ei lenwi;
- Ystyried y potensial ar gyfer atgyfnerthu gofynion diogelu yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mwy o waith i'w wneud ar hyfforddiant awdurdodau lleol gyda'r nod o sicrhau bod cywair yr hyfforddiant yn briodol er mwyn ymsefydlu dealltwriaeth o'r hyn sydd angen ei wneud mewn gwirionedd er mwyn "diogelu";
- Egluro rôl yr Unigolyn Cyfrifol/Cofrestredig gan fod dryswch ynghylch y "rôl" a'r hyn y mae'n ei gwmpasu;
- Rhoi mwy o eglurder am y Rheoliadau gan fod rhai yn ddigon hunanesboniadol tra bod eraill, fel "addasrwydd gweithwyr" yn heriol;
- Egluro sefyllfa gwarchodwyr plant sy'n gweithio ochr yn ochr â gwarchodwyr plant eraill ar yr un safle - gofyniad am ddisgwyliad cliriach o'r gofynion rheoleiddiol;
- Eglurhad o rôl cynorthwyywyr gwarchodwyr plant a gofynion rheoliadol.

3.16 Trafodwyd hefyd yr heriau penodol a wynebir gan AGC wrth roi'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar waith.

- Rheoli materion yn ymwneud ag ymddygiad;
- Hyfforddiant Cymorth Cyntaf. Hyfforddiant ar ba lefel a fformat sy'n briodol, er enghraifft, ar-lein, wyneb yn wyneb ac ati?
- Materion yn ymwneud â'r cymarebau oedolion: plant cywir;



- Safonau yn ymwneud â gweithdrefnau ariannol a gwiriadau ariannol;
- Gofynion cymwysterau ar gyfer gwahanol lleoliadau h.y. pan ddylent fod yn gymwysterau gofal plant a/neu chwarae. Dryswch, yn enwedig, yn ymwneud â lleoliadau y tu allan i'r ysgol ac ysgolion coedwig.

3.17 Roedd y gweithdy hefyd yn cynnwys dwy sesiwn yn ystyried manteision a heriau'r canlynol:

- dull gweithredu llai rhagnodol o ran y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn unol â'r dull gweithredu a fabwysiadwyd o dan RISCA ar gyfer lleoliadau gofal cymdeithasol, gan ddefnyddio Safon 12 Bwyd a Diod a Safon 24 Rhagofalon Tân i lywio trafodaethau;
- safonau sy'n benodol i safonau.

Yn achos dull llai rhagnodol, dyma'r canfyddiadau:

- mae angen i safonau gynnwys dolenni i ganllawiau cyfredol er mwyn helpu darparwyr i fodloni gofynion yn hytrach na cheisio cwmpasu popeth yn y safon ei hun;
- Gellid darparu dolenni i enghreifftiau o arfer da;
- Roedd rhywfaint o bryder ynghylch a fyddai pob darparwr yn defnyddio canllawiau perthnasol pe na bai'r gofynion wedi'u nodi yn y safonau;
- Nid oes un ateb i bawb - dylid bod rhywfaint o hyblygrwydd yn y ffordd y gall gwasanaeth fodloni rheoliadau;
- Mae diogelu yn rhan hanfodol o ddull gweithredu llai rhagnodol;
- Cytunwyd yn gyffredinol â dull gweithredu llai rhagnodol mewn cysylltiad â safonau penodol, gyda darparwyr yn cael eu profi, er enghraifft, yn achos diogelwch tân, ar y ffordd y byddent yn cynnal asesiad risg er mwyn dangos eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliad priodol.

Yn nhermau safonau sy'n benodol i sector, gwnaed y pwyntiau canlynol yn ystod trafodaethau:

- gellid cael prif ganllawiau, gyda chanllawiau "penodol i wasanaeth" oddi tanynt pe bai angen;

- Fodd bynnag, gallai dull o'r fath arwain at berygl y bydd darparwyr gofal plant yn ystyried eu bod yn perthyn i "gategori";
- Gallai'r arolygiadau fod yn fwy cymhleth o bosibl, os yw'r safonau yn benodol i sector.
- Gallai rheoliadau gyda chanllawiau statudol a chanllawiau yn benodol i wasanaethau oddi tanynt fod yn fodel defnyddiol (RISCA) i'w ystyried.

## **Estyn**

3.18 Gwnaed gwaith ymgysylltu hefyd gydag Estyn mewn cyfarfod yn eu swyddfeydd ym mis Ebrill 2018. Maer Estyn yn arolygu lleoliadau gofal plant sy'n cyflwyno addysg Blynyddoedd Cynnar a ariennir. Y brif neges a gododd o'n trafodaethau oedd yr angen am fwy o eglurder ar draws amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys diogelu, gofynion o ran y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, rheoli staff a goruchwylio. Roedd Estyn hefyd o'r farn y byddai'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn elwa ar ddefnyddio iaith gliriach, symlach ac y dylent gynnwys gwybodaeth ategol i annog mwy o sicrwydd ansawdd.

## **Chwarae Cymru**

3.19 Mae'r adborth a gafwyd gan Chwarae Cymru nid yn unig yn ymwneud â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ond y gyfundrefn reoleiddiol gyffredinol, nad yw o'r farn ei bod yn addas at y diben. Mae o'r farn bod hyn wedi arwain at leihad mawr yn niferoedd y lleoliadau gwaith chwarae mynediad agored sydd wedi'u cofrestru. Dywedodd fod tystiolaeth o hyn mewn adroddiadau niferus gan AGC ers cyflwyno'r system reoleiddio bresennol. Ystyria Chwarae Cymru fod y rhesymau dros hyn yn cynnwys y canlynol:

- canfyddiad bod y broses arolygu yn 'ddigydyndeimlad' ag egwyddor gwaith chwarae mynediad agored;
- lleoliadau yn ei chael hi'n anodd (yn enwedig cynlluniau chwarae adeg gwyliu) bodloni gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol o ran cymwysterau a staffio;

- disgwyliad y bydd gan gyfran o weithwyr chwarae gymwysterau lefel 3 a'r cymarebau Cymorth Cyntaf gofynnol, safonau y mae Chwarae Cymru yn cynghori ein bod yn eu cyflwyno heb ymgynghoi â'r sector chwarae
- mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol 'un ateb i bawb' yn gwaethygu'r broblem gan nad yw'r safonau yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn adlewyrchu natur gwaith chwarae mynediad agored yn gyffredinol, er enghraifft, gofynion ar gyfer toiledau, taflenni llofnodi ar gyfer ymwelwyr;
- mai gwasanaeth a ddarperir i ddiwallu anghenion rhieni yw gofal plant yn ei hanfod, tra bod darpariaeth gwaith chwarae yn wasanaeth i blant sy'n ymwneud â chyflwyno eu hawl i chwarae.
- proses or-fiwrocratig ar gyfer cofrestru ac arolygu fel ei gilydd, yn enwedig y broses arolygu anghymesur ar gyfer darpariaeth dymhorol;
- mae rheoliadau presennol sy'n gwahardd darparwyr rhag cofrestru nifer o leoliadau o dan un cofrestriad - yn rhoi baich sylweddol a, gellir dadlau, ddiangen ar rai awdurdodau lleol, er enghraifft bod angen i awdurdod lleol sy'n cynnal 15 neu fwy o gynlluniau chwarae gyflwyno 15 o gofrestriadau unigol gydag arolygiadau cysylltiedig gan AGC;
- nid yw'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol presennol a'r broses reoleiddiol gysylltiedig yn caniatáu fframwaith realistig er mwyn i'r amrywiaeth ehangaf bosibl o ddarpariaeth mynediad agored, er enghraifft model peripatetig neu 'rodwyr chwarae', gael ei harolygu. Mae model o'r fath wedi'i gynllunio i fod yn symudol ac yn ymatebol i'r mannau lle mae plant yn chwarae yn eu cymuned.

3.20 Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn, mae Chwarae Cymru yn awgrymu'r canlynol:

- dylid adolygu a diwygio'r rheoliadau a'r safonau;
- dylai'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ganolbwyntio ar gefnogi darparwyr i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â diogelu plant, ac fel man cychwyn, tybio bod darparwyr yn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol o ran gwiriadau staff, y safle ac iechyd a diogelwch;
- dylid dileu/cael gwared ar yr eithriadau presennol, gan gynnwys agor am ddwy awr, a'r eithriadau ar gyfer clybiau chwaraeon/celf a grwpiau ffydd;

- mae angen i AGC a'r sector chwarae sefydlu dealltwriaeth a rennir o ystyr arolygiad cymesur ar gyfer cynlluniau chwarae adeg gwyliau sydd ond ar agor am ychydig wythnosau bob blwyddyn;
- mae cymaint o wahaniaeth rhwng darpariaeth mynediad agored a gwaith chwarae a gofal dydd a gwarchod plant cyffredinol, fel bod angen Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar wahân ar gyfer darpariaeth mynediad agored. Dylent adlewyrchu'r amrywiaeth eang o leoliadau lle gall gwaith chwarae ddigwydd, a chael eu seilio ar asesu risgiau'r lleoliadau hynny a'u cydbwysu â'r manteision a gaiff y plant o ddefnyddio'r ddarpariaeth, yn hytrach na nodi set o nodweddion rhagnodedig y dylai fod gan leoliad;
- dylid cynnal ymgynghoriad trylwyr â'r sector ar gofrestru'r gweithlu gwaith chwarae. Mae'r sector wedi cydnabod ers amser mai staff cymwys sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ac sydd â phrofiad digonol i gyflawni eu rolau perthnasol, ac sydd â mynediad at DPP, yw'r cyfraniad mwyaf effeithiol y gellid ei wneud i ddarpariaeth o ansawdd da. Ni waeth beth fydd canlyniad unrhyw adolygiad, mae'r sector wedi mynegi dyhead i gael proses i gofrestru gweithwyr chwarae, yn yr un modd â gweithluoedd eraill y sector gofal plant ac addysg.

3.21 Os na chaiff y materion allweddol a godwyd i lywio'r adolygiad eu datrys, mae Chwarae Cymru o'r farn y bydd dirywiad pellach yn nifer y lleoliadau gwaith chwarae sy'n cyflwyno darpariaeth reoleiddiedig. Cyfeiria at y lleihad mewn cyllid awdurdodau lleol ar gyfer cynlluniau chwarae a'r angen i feithrin amgylchedd lle mae grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i sefydlu eu darpariaeth eu hunain. Gallai proses reoleiddio ac arolygu gymesur gefnogi lleoliadau o'r fath. Ar hyn o bryd, mae llawer o leoliadau yn ystyried bod y broses gofrestru ac arolygu yn rhy feichus, ac maent yn chwilio am ffyrdd o fanteisio ar eithriadau i'r rheoliad. Barn Chwarae Cymru yw 'po fwyaf o ddarparwyr a all fanteisio ar yr eithriadau, y mwyaf yw'r posibilrwydd y bydd plant yn profi niwed yn y lleoliadau hyn'.

3.22 Awgryma Chwarae Cymru ei bod er budd pennaf plant i Lywodraeth Cymru gymryd camau ystyriol i roi system ar waith sy'n cwmpasu darpariaeth y tu allan i'r ysgol ar bob ffurf, ac y dylai pob lleoliad sy'n gofalu am blant hyd at 12 oed, yn

absenoldeb eu rhieni, fod yn ddarostyngedig i reoliad diogelu. Dylai'r system honno fod yn gymesur, gan ganolbwyntio'n briodol ar ddiogelu, yn hytrach na materion ehangach yn ymwneud ag ansawdd (y gellir mynd i'r afael â nhw gan y sectorau perthnasol ac, os yw'n briodol, eu cyrff llywodraethu cenedlaethol). Yn ei hanfod, mae Chwarae Cymru yn cefnogi'r egwyddor o reoleiddio pob darpariaeth i blant sy'n cyflogi staff, ond os gwneir penderfyniad i beidio â gwneud hyn, , byddai Chwarae Cymru yn cefnogi ymgynghori â'r sector er mwyn ystyried y cymorth ar gyfer dadreoleiddio'r ddarpariaeth mynediad agored.

### **Adborth gan ddarparwyr**

3.23 Ar ran Llywodraeth Cymru, lluniodd Cwlwm holiadur dwyieithog ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Cafodd yr holiadur ei ddisbarthu i'r sector gofal plant a chwarae ar eu gwefan a thrwy randdeiliaid allweddol eraill, rhwng mis Rhagfyr 2018 a mis Chwefror 2019. Cafwyd 555 o ymatebion i'r holiadur hwn, a darparwyd canfyddiadau'r holiadur i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2019. Maent wedi'u hatodi yn **Atodiad 2**.

3.24 Dengys y canfyddiadau fod 86% o'r holl ymatebwyr, ac 85% o wasanaethau cofrestredig, yn cefnogi'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn fras ac o'r farn eu bod yn eu helpu i ddarparu gofal plant o ansawdd da. Ymysg y rhesymau a nodwyd, roedd y ffaith bod y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cynnig:

- llinell sylfaen yn dangos disgwyliadau clir;
- fframwaith clir er mwyn ei gwneud yn bosibl i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da;
- cyfeirlyfr ar gyfer gofynion deddfwriaethol, polisi a rheoleiddio.

3.25 Dyma rai o'r rhesymau a nodwyd gan ymatebwyr nad oeddent yn ystyried y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn gwbl ddefnyddiol:

- prosesau beichus;
- anghysondeb yn null AGC o ddehongli'r safonau;
- diffyg cymesuredd ar gyfer gwarchodwyr plant a lleoliadau llai;
- gofynion o ran cymarebau;

- diffyg eglurder o ran cymwysterau;
- disgwyliadau rheini.

3.26 Gofynnwyd i ymatebwyr nodi'r safonau hynny roeddent yn eu cael yn heriol i'w rhoi ar waith. Wrth ddadansoddi'r canfyddiadau, gwelodd Cwlwm nifer o themâu yn amlygu'u hunain, gan gynnwys:

- Gall gofynion gweithwyr allweddol fod yn anodd i'w rhoi ar waith mewn rhai lleoliadau oherwydd patrymau gweithio staff ac amrywiaeth yn yr amseroedd gollwng/casglu plant.
- Cynllunio ar gyfer dysgu plant a gofynion y Cyfnod Sylfaen - roedd rhai o'r ymatebwyr yn ystyried eu bod yn darparu gofal plant yn hytrach nag addysg gynnar, tra bod eraill yn teimlo y dylid bod mwy o gymorth ac arweiniad ar gael er mwyn helpu i fodloni disgwyliadau;
- Gallai fod yn heriol gweithio mewn partneriaeth â rhieni weithiau, am nad yw pob rhiant yn gefnogol o ddulliau gweithredu penodol, er enghraifft chwarae blêr;
- Roedd materion yn ymwneud â'r amgylchedd yn cael eu nodi'n aml fel meysydd a oedd yn peri pryder i ymatebwyr, o ystyried yr amrywiaeth o leoliadau rheoleiddiedig y mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn berthnasol iddynt a'r amrywiaeth rhwng amgylcheddau rhwng gwasanaethau gofal plant a chwarae cofrestredig yng Nghymru.
- Anghysondebau o ran cofrestru, rheoleiddio ac arolygu a dehongliad AGC o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol - roedd hyn yn destun pryder penodol i ymatebwyr yng nghyd-destun cyhoeddi graddau a chymesuredd y dull gweithredu;
- Mae'r gwaith papur helaeth y mae'n rhaid ei gwblhau yn golygu bod gan ymarferwyr lai o amser i weithio gyda phlant;
- Dull anhyblyg o ran cymhwyso'r cymarebau, yn enwedig mewn cysylltiad â lleoliadau gofal plant ag aelod o staff 'ychwanegol' neu niferoedd o blant dan

5 oed ar gyfer gwarchodwyr plant, a'r ffordd y mae'r dull hwn yn effeithio ar anghenion teuluoedd;

- Materion yn ymwneud â staffio, recriwtio a chadw - problemau ar draws y sector ond problemau penodol yn ymwneud â gofynion cymwysterau;

3.27 O ran sut y gellid gwella'r safonau, roedd y canfyddiadau'n cynnwys y canlynol:

- Cysondeb ac eglurder - gwella'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol er mwyn rhoi mwy o gysondeb yn y dull o gofrestru, rheoleiddio ac arolygu gan AGC;
- Hyblygrwydd o ran cymarebau - ystyried caniatáu mwy o hyblygrwydd o ran cymarebau staffio er mwyn helpu i gynnig gwasanaeth hyblyg i deuluoedd;
- Deall natur y ddarpariaeth - angen gwella'r ddealltwriaeth o natur wahanol darpariaeth benodol, e.e. chwarae mynediad agored, ac i hyn gael ei adlewyrchu yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol
- Hyrwyddo gwaith y sector gofal plant a chynnwys rhieni mewn unrhyw newidiadau posibl, a fyddai'n helpu i gefnogi ymgysylltiad a gwella dealltwriaeth o ofal plant a chwarae rheoleiddiedig a'r gwahaniaeth rhwng gofal plant cofrestredig ac anghofrestredig;
- Rôl y Safonau Gofynnol Cenedlaethol wrth gefnogi gofal plant a chwarae o ansawdd - a ydynt yn hysbysu darparwyr am y gofynion sylfaenol neu'n eu cefnogi i ddarparu darpariaeth gofal plant a chwarae o ansawdd.

3.28 O'u dadansoddiad o ganfyddiadau'r holiadur, daeth Cwlwm i'r casgliad bod nifer o faterion wedi'u hamlygu, er bod consensws eang ymhlith ymatebwyr o blaid y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Pwysleisir hefyd nad yw'r ymatebwyr yn gwbl gynrychioliadol o'r sector, felly mae'n rhaid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r canfyddiadau. Yn y cyd-destun hwn, mae Cwlwm yn gwneud yr argymhellion canlynol i Lywodraeth Cymru eu hystyried yng nghyd-destun y Safonau Gofynnol Cenedlaethol:

1. Yr angen am holiadur sector ehangach i bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol er mwyn casglu barn y rhai sy'n cefnogi'r sector;
2. Mwy o grwpiau ffocws gyda darparwyr, rhanddeiliaid allweddol a rhieni/gofalwyr er mwyn ystyried y themâu a nodir yn ei adroddiad;

3. Dadansoddiad arbenigol o unrhyw waith ymchwil pellach a gynhelir;
4. Ymgysylltu â'r sector ar unrhyw newidiadau arfaethedig drwy broses ymgynghori ffurfiol.

### **Ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol**

3.29 Cynhaliwyd cyfarfodydd â chydweithwyr polisi ar draws Llywodraeth Cymru yn ystod yr adolygiad er mwyn deall sut mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ymwneud â'u meysydd gwaith perthnasol ac er mwyn ceisio'u barn ar unrhyw newidiadau posibl a allai fod yn fuddiol:

- **Gweithlu** - cyfeiriwyd at y gofynion yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar ddarparwyr i sicrhau bod canran uchel o'u gweithlu yn gymwys. Awgrymwyd y dylid ystyried cynnwys canran o staff sy'n "gweithio tuag at" gymwysterau o fewn amser penodol mewn cysylltiad â chymarebau ar gyfer staff cymwys. Byddai hyn yn cyd-fynd â gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd fel rhan o'r broses o weithredu'r Cynllun Gweithlu 10 Mlynedd, sydd â'r nod o gefnogi'r gwaith o feithrin capasiti a gallu ar draws y sector
- **Cynnig Gofal Plant** - cododd hyn nifer o faterion gan gynnwys rôl cynorthwyr gwarchodwyr plant, cymarebau a gofynion lle, dan do ac awyr agored. Codwyd y gofyniad am staff ychwanegol a cheir pryder ymhlith rhai y gallai'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol fod yn cyfyngu ar ddatblygiad darpariaeth arloesol.
- **Diogelwch Tân** - Ni ddylai'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol fod yn rhy rhagnodol o ran gofynion diogelwch tân ond dylent adlewyrchu rheoliadau a chyfeirio darparwyr at wybodaeth a chanllawiau perthnasol.
- **Diogelu** – roedd trafodaethau yn canolbwyntio ar amddiffyn plant. Fodd bynnag, mae rheoliadau diogelu yn cwmpasu materion ehangach. Roedd cydweithwyr diogelu o'r farn bod cywair geiriad presennol y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn gywir, ond y dylai unrhyw ganllawiau atebol roi cyngor am wahanol ffurfiau ar gam-drin (e.e. cam-drin rhwng plant/cam-drin domestig). Mae hefyd yn bwysig cadw hyfforddiant yn berthnasol ac yn gyfredol. Dylid



bod gwahaniaeth clir rhwng y gweithdrefnau i'w dilyn os yw'r gamdriniaeth yn digwydd yn y lleoliad gan aelod o'r staff, neu rhwng plant, a phan fod aelod o'r staff yn amau bod plentyn yn wynebu perygl y tu allan i'r lleoliad. Dylai staff allu cael gafael ar bolisi a gweithdrefn diogelu ar gyfer y safle, a deall sut i'w dilyn. Dylai polisi amddiffyn plant fod ar waith sy'n nodi proses glir ar gyfer rhoi gwybod am bryderon am blentyn sy'n wynebu'r risg o gael ei gam-drin i aelod uwch o'r staff yn y lleoliad, ac i asiantaethau perthnasol fel yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol. Dylai'r polisi gynnwys gwybodaeth am y broses i'w dilyn pe bai aelod o'r staff yn pryderu bod y plant yn wynebu risg gan aelod arall o'r staff neu weithiwr proffesiynol yn y lleoliad neu mewn lleoliad arall. Dylai staff fod yn ymwybodol o Weithdrefnau Diogelu Cymru a Chanllawiau Ymarfer Cymru Gyfan cysylltiedig ar blant mewn amgylchiadau diogelu penodol.

- **Iechyd y Cyhoedd/Polisi Tybaco** - roedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar ddeddfwriaeth sydd ar y gorwel ar safleoedd a cherbydau di-fwg o ganlyniad i bwerau newydd yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017. Mae ymgynghoriad ar y rheoliadau newydd wedi'i gwblhau a bwriedir iddynt fod ar waith erbyn diwedd 2019/dechrau 2020. Bydd y rheoliadau hyn yn rhoi cyfyngiadau smygu ar waith mewn mannau agored penodol, sy'n cynnwys ardaloedd awyr agored lleoliadau gofal plant cofrestredig. Dylai'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol adlewyrchu'r newidiadau hyn a dylent hefyd gael eu cefnogi gan ganllawiau i gynnwys cyngor ar ddefnyddio sigarêts electronig.
- **Bwyd a Maeth** - roedd safonau a chanllawiau wedi cael eu datblygu ar gyfer lleoliadau gofal plant, a'u cyhoeddi'n ddiweddar. Gwnaed cysylltiadau mewnol â Llywodraeth er mwyn sicrhau bod y safonau a'r canllawiau yn cyd-fynd â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.
- Roedd **Entrepreneuriaeth a Chyflawni/Busnes Cymru** yn pryderu am gost rheoliadau a'r baich ar y sector. Cyfeiriwyd at adroddiad Alma Economics<sup>6</sup> a

---

<sup>6</sup>Adolygiad Llywodraeth Cymru (2019) o'r Sector Gofal Plant yng Nghymru. Cyrchwyd 13/4/2019. <https://llyw.cymru/adolygiad-or-sector-gofal-plant-yng-nghymru-0>

awgrymodd fod angen cynnal adolygiad pellach ar effaith rheoliadau ar y sector, yn enwedig o'u hystyried yng nghyd-destun y gyfran uchel o leoliadau gofal plant sydd ond yn cadw'u pen uwchlaw'r dŵr neu hyd yn oed yn gwneud colled. Mewn Digwyddiadau Rhwydweithio Cymorth Busnes a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru a Busnes Cymru, roedd sefydliadau cymorth busnes y sector gofal plant, er eu bod yn cydnabod materion cost, o'r farn bod rheoleiddio yn ffactor pwysig o ran darpariaeth gofal plant. Yn eu tyb nhw, nid oedd y sector o reidrwydd wedi'i or-reoleiddio, er bod problemau yn ymwneud, er enghraifft, â chymarebau staffio, aelodau o staff 'ychwanegol' a bodloni'r gofynion o ran cymwysterau.

## **4 Canfyddiadau allweddol ac argymhellion**

4.1 Mae nifer o faterion allweddol wedi codi o'n gwaith ymgysylltu a dadansoddi hyd yma. Mae'r rhain yn amrywio o newidiadau posibl i safonau penodol i ystyried yr agenda rheoleiddio ac ansawdd ehangach a'r ffordd maent yn ymwneud â gwahanol rannau o'r sector gofal plant a chwarae.

4.2 O ystyried y gwaith ar yr ECEC sy'n mynd rhagddo, a'r Cais am Dystiolaeth mewn perthynas â'r Gorchymyn Eithriadau y cyfeirir ato uchod, mae hwn yn gyfle i gymryd saib, myfyrio a phwyso a mesur y gwersi a ddysgwyd hyd yma, ac ystyried y ffordd orau ymlaen. Mae prif faterion a chanfyddiadau'r gwaith wedi'u crynhoi isod, gydag argymhellion awgrymedig. Hoffai Llywodraeth Cymru drafod gyda rhanddeiliaid sut y gellir datblygu'r argymhellion hyn mewn modd amserol a chymesur.

### **Diogelu**

Ceir awydd ymhlith rhai rhanddeiliaid am brotocol cliriach ar gyfer codi pryderon yn ymwneud â diogelu. Mae hyn yn deillio o bryderon y gall fod diffyg dealltwriaeth mewn rhai rhannau o'r sector am y cyfrifoldebau a'r agenda ddiogelu ehangach, er enghraifft Atal. Dylai fod gan bob lleoliad bolisi diogelu ar waith sy'n cyd-fynd â threfniadau cenedlaethol drwy Weithdrefnau Diogelu Cymru.

## **Argymhelliad 1**

**Dylai awdurdodau lleol weithio gyda'r Bwrdd Diogelu Plant perthnasol i ystyried yr hyfforddiant a gynigir i leoliadau gofal plant a rhoi cyngor i unigolion a lleoliadau ar ddarpariaeth hyfforddiant briodol.**

## **AGC**

Ceir canfyddiad ar draws rhannau o'r sector fod arolygwyr AGC yn anghyson yn eu dull o gymhwyso'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Byddai'r sector gofal plant yn croesawu mwy o gydweithio ag AGC er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r anghysondebau hyn, rhannu pryderon, hyrwyddo dealltwriaeth a datblygu'r agenda ansawdd. Mae'r Sector Chwarae hefyd yn credu bod diffyg cydymdeimlad yn y broses arolygu bresennol ar gyfer egwyddor chwarae mynediad agored.

## **Argymhelliad 2**

**Gwella'r trefniadau rhannu gwybodaeth am faterion diogelu rhwng Arolygiaeth Gofal Cymru ac awdurdodau lleol**

## **Argymhelliad 3**

**AGC ac awdurdodau lleol i chwilio am gyfleoedd i ymgysylltu'n rheolaidd ac yn well er mwyn rhannu gwybodaeth am feysydd o fuddiannau a rennir.**

## **Argymhelliad 4**

**Parhau â'r gwaith ymgysylltu sydd ar y gweill rhwng cynrychiolwyr o'r sector gofal plant a chwarae ac AGC er mwyn mynd i'r afael ag anghysondebau**

## **Argymhelliad 5**

**Ystyried cynnwys arolygu a rheoleiddio lleoliadau chwarae yn yr Adolygiad Chwarae.**

## **Cymhareb staffio ychwanegol**

Mae Safon 15:13 yn pennu bod yn rhaid i leoliad gofal dydd llawn sydd wedi'i gofrestru ar gyfer 20 o blant neu fwy gael aelod 'ychwanegol' o staff. Dywedodd nifer o randdeiliaid fod y gofyniad hwn yn rhy gyfyngol, gan ei fod yn gymwys hyd yn oed pan fo llai na 20 o blant yn bresennol. At hynny, nid yw'r safon yn gymwys i leoliadau sesiynol, felly gall ymddangos yn afresymol.

## **Argymhelliad 6**

**Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ellid mabwysiadu agwedd fwy hyblyg o ran staff ychwanegol gan ddibynnu ar amgylchiadau a natur y ddarpariaeth, o gofio nad oes unrhyw ofyniad rheoleiddiol penodol ar gyfer union gymarebau**

## **Cymwysterau**

Nid yw Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2016 yn diffinio'r union lefel o gymwysterau sy'n ofynnol ar gyfer staff a gyflogir mewn lleoliadau gofal plant a chwarae. Fodd bynnag, mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cyfeirio at gymwysterau a nodir ar restr Gofal Cymdeithasol Cymru o gymwysterau ar gyfer y Gweithlu Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru neu Fframwaith Cymwysterau Integredig Skills Active ar gyfer gwaith Chwarae. Wrth i'r cymwysterau gofal plant newydd gael eu cyflwyno, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn adolygu'r rhestr o gymwysterau a dderbynnir er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r gofynion o ran cymwysterau a dderbynnir ar gyfer ymarfer yn y maes gofal plant. Cydnabyddir yn gyffredinol fod y sector gofal plant yn wynebu problemau recriwtio, gyda chymwysterau yn chwarae rhan arwyddocaol yn y broblem. Cafwyd tystiolaeth o hyn yn ein gwaith ymgysylltu â'r sector, gyda rhanddeiliaid yn cyfeirio at y problemau roedd y darparwyr yn eu cael i recriwtio staff â chymwysterau addas, yn enwedig ar lefel 3. Roedd hon yn broblem benodol ar gyfer lleoliadau Cymraeg eu hiaith ac ar gyfer y sector chwarae, gyda'r naill a'r llall yn ei chael hi'n anodd bodloni gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol o ran cymwysterau a staffio.

Gwelsom hefyd y ceir y canlynol:

- Dryswch yn y sector am y cymwysterau gofynnol;
- Canfyddiad bod mwy o bwyslais ar staff mewn lleoliadau gofal dydd o ran y cymwysterau gofynnol, o gymharu â gwarchodwyr plant;
- Yr angen i adlewyrchu DPP yn y safonau.

### **Argymhelliad 7**

**Ystyried a ddylid diwygio safon 13.7(DC) i gynnwys staff “sy'n gweithio tuag at gymhwyster” o fewn amserlen benodedig fel rhan o'r cymarebau derbyniol; ac wrth i'r gyfres newydd o gymwysterau ar gyfer ymarferwyr gofal plant gael eu cyflwyno, byddwn yn ystyried pa ddiwygiadau y gallai fod eu hangen.**

### **Argymhelliad 8**

**Parhau â'r gwaith sydd ar y gweill gyda'r sector ac AGC i sicrhau dealltwriaeth well o'r cymwysterau a gydnabyddir er mwyn bodloni gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol presennol;**

### **Argymhelliad 9**

**Rhoi mwy o bwyslais ar DPP o fewn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

### **Argymhelliad 10**

**Cymwysterau chwarae i gael eu hystyried fel rhan o'r Adolygiad Chwarae ehangach**

### **Cymorth Cyntaf**

Roedd pryderon am yr angen am fwy o eglurder ynglŷn â'r cymhwyster cymorth cyntaf sy'n ofynnol er mwyn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Gofynnodd llawer o randdeiliaid o bob rhan o'r sector i'r cymarebau o ran staff sydd â chymhwyster cymorth cyntaf gael eu hailystyried.

### **Argymhelliad 11**

**Ystyried gwaith cwmpasu a wnaed hyd yma ar hyfforddiant cymorth cyntaf ac yn arbennig, y gofynion o ran hyfforddiant Cymorth Cyntaf Pediatrig.**

## **Cynorthwyyr Gwarchodwyr Plant a Gwarchodwyr Plant yn cydweithio**

Yn y ddau achos, ceir dymuniad am fwy o eglurder ynglŷn â'r gofynion rheoleiddiol. Yn achos mwy nag un gwarchodwr plant yn cydweithio, roedd hyn yn ymwneud â phwy oedd â'r cyfrifoldeb, a hwnnw'n gyfrifoldeb cytundebol a chyfrifoldeb am y plant dan eu gofal o ddydd i ddydd.

O ran cynorthwyyr gwarchodwyr plant, gofynnwyd am eglurder am nifer y cynorthwyyr y gallai gwarchodwr plant eu cyflogi, y cymwysterau y dylent feddu arnynt, sut y dylent gael eu goruchwyllo, yr amser y gallent ei dreulio ar eu pen eu hunain gyda phlant a'r wybodaeth ategol y dylent ei darparu cyn iddynt gael eu cyflogi.

O'r 1,847 o wasanaethau <sup>7</sup>gwarchod plant yng Nghymru, mae 201 ohonynt yn cyflogi cynorthwyyr, gyda mwy na'u hanner yn cyflogi dim ond un. Fodd bynnag, mae 65 o leoliadau sy'n cyflogi mwy nag un cynorthwyydd, gyda 2 leoliad yn cyflogi 6 cynorthwyydd neu fwy.

O ran gwarchodwyr plant yn cydweithio, mae gan 102 o leoliadau fwy nag un gwarchodwr plant cofrestredig yn gweithio yn yr un cyfeiriad, gyda 92% ohonynt yn cynnwys 2 gwarchodwr plant cofrestredig.

Ar hyn o bryd, gall gwarchodwyr plant weithio ar eu pen eu hunain, ond gallant hefyd weithio gyda gwarchodwr/gwarchodwyr plant arall/eraill o'r un lleoliad neu gyflogi cynorthwyydd/cynorthwyyr. Yn sgil trafodaethau gydag PACEY Cymru, rydym yn ymwybodol bod llawer o'r gwarchodwyr plant hyn yn dewis gweithio gyda, neu gyflogi, aelodau o'u teulu (h.y. gŵr a gwraig neu fam a merch). Gall hyn fod yn fodel i gefnogi capasiti ar adegau prysur, ac mae'n drefniant gwaith dealladwy, yn yr un modd ag y mae achosion lle bydd gwarchodwr plant yn cyflogi cynorthwyydd neu'n gweithio gyda gwarchodwr plant arall yn yr un lleoliad i gefnogi proses fwy ffurfiol o ehangu busnes.

---

<sup>7</sup> Ffigurau Mawrth 2019 gan AGC.

## **Argymhelliad 12**

**Ystyried darparu canllawiau mewn achosion lle mae mwy na dau warchodwr plant cofrestredig neu fwy nag un gwarchodwr plant a chynorthwydd yn gweithio o'r un safle.**

## **Argymhelliad 13**

**Datblygu canllawiau cliriach ar rôl cynorthwywr gwarchod plant, yn arbennig o ran y ffordd y cânt eu goruchwylio er mwyn sicrhau gofal diogel o ansawdd i blant.**

## **Chwarae Mynediad Agored**

Mae adborth gan y sector hyd yma yn awgrymu bod angen mabwysiadu dull mwy cymesur tuag at gofrestru. Mae Chwarae Cymru o'r farn y dylid bod canllawiau penodol i sector gan nad yw'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol presennol yn adlewyrchu natur darpariaeth mynediad agored. Byddai un proses gofrestru ar gyfer darparwr aml-leoliad hefyd yn cefnogi'r sector yn well, yn ôl Chwarae Cymru.

Mae Chwarae Cymru hefyd o'r farn bod pob ffurf ar ddarpariaeth plant y tu allan i'r ysgol yn cael ei rheoleiddio, gan gynnwys clybiau chwaraeon/gweithgareddau, gyda phroses gofrestru gymesur a chyfundrefn arolygu i adlewyrchu natur darpariaeth gwaith chwarae mynediad agored. Os nad oes modd gwneud hyn, mae o'r farn y dylai darpariaeth mynediad agored gael ei thynnu o'r gyfundrefn reoleiddio. Mae rhanddeiliaid allanol ar draws y sector wedi codi pryderon am glybiau gweithgareddau yn gweithredu y tu allan i'r rheoliadau. Mae lleoliadau sy'n darparu hyfforddiant neu sesiynau tiwtora, er enghraifft, ar gyfer gweithgareddau chwaraeon, celfyddydau perfformio, celf a chrefft, wedi'u heithrio rhag cofrestru o dan ddarpariaethau Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru), gan ddibynnu ar nifer y gweithgareddau a ddarperir ganddynt. Fel y nodir uchod, mae Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 wedi bod yn destun Cais am Dystiolaeth. Caiff canfyddiadau'r cais eu coladu er mwyn llywio penderfyniadau.

### **Argymhelliad 14**

**Ystyried datblygu dull mwy cymesur o reoleiddio mewn perthynas â darpariaeth o fathau penodol, er enghraifft chwarae mynediad agored neu ddarpariaeth dymhorol o bosibl. Rheoleiddio i adlewyrchu natur ac amgylchiadau penodol y lleoliad, gan gynnwys staffio, cyd-destun cymunedol, natur yr amgylchedd ac oedran a gallu'r plant.**

### **Argymhelliad 15**

**Canfyddiadau'r Cais am Dystiolaeth ar Orchymyn Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 i lywio unrhyw newidiadau posibl i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

### **Argymhelliad 16**

**Ystyried gofynion cofrestru ar gyfer darpariaeth y lleoliadau gwaith chwarae fel rhan o'r Adolygid Chwarae ehangach**

### **Agenda ansawdd**

Tra bod y fframweithiau ansawdd amrywiol yn helpu i ysgogi'r agenda ansawdd, mae'r gwaith cychwynnol a wnaed i ystyried eu perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn awgrymu eu bod hefyd yn dyblygu ac yn darparu negeseuon cymysg. Mae potensial i hyn ddrysdu darparwyr a rhieni fel ei gilydd, a lleihau cyfleoedd ar gyfer dull gweithredu cyson ar draws y sector mewn cysylltiad ag ansawdd. Mae angen i fwy o waith gael ei wneud yn y maes hwn er mwyn ystyried y berthynas â Dechrau'n Deg hefyd, a'r gofynion sydd ar leoliadau sy'n darparu Gofal Plant Dechrau'n Deg. Ym mhob rhan o'r sector, awgrymwyd y gellid atgyfnerthu'r safonau sy'n ymwneud â Sicrhau Ansawdd hefyd. Soniwyd y gallai cofrestru'r Gweithlu fod yn ffordd bosibl o wella ansawdd, yn hytrach na thrwy'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Mae angen ystyried hefyd sut y mae'r canfyddiadau'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cyd-fynd â'r agenda ECEC ehangach y cyfeiriwyd ati uchod a'r nod hirdymor o gael Fframwaith Ansawdd Sengl. Byddai'r fframwaith hwn yn nodi'r elfennau allweddol o ansawdd ac yn cynnig Cysondeb ac eglurder i'r sector ynghylch



ystyr ansawdd a sut y gellir ei gyflawni. Byddai hyn yn cael ei ddatblygu o safbwynt dealltwriaeth o'r hyn sydd gennym ar hyn o bryd, yr hyn y mae'r dystiolaeth yn dangos ei fod yn gweithio, a'r meysydd eraill y gallwn ddysgu ohonynt (megis RISCA).

Mae ein cynlluniau ar gyfer ECEC hefyd yn cynnwys pennu sut y gall y gweithlu gofal plant gael ei gefnogi gan gorff proffesiynol a dod yn weithlu cofrestredig. Byddai hyn yn helpu, nid yn unig i lenwi'r bylchau yn y dystiolaeth/data sydd gennym ar y gweithlu, ond hefyd i osod y gofynion ar gyfer rolau yn y sector - gan gynnwys disgwyliadau o ran DPP.

Gyda'i gilydd, byddai'r Fframwaith Ansawdd Sengl a chofrestru'r gweithlu yn gweithio'n dda i atgyfnerthu'r sector ac ategu ansawdd.

### **Argymhelliad 17**

**Gwaith pellach i gael ei wneud i ystyried yr agenda ansawdd a'r berthynas rhwng y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, Fframwaith Arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru a'r cynlluniau canllawiau ansawdd ar draws y sector gofal plant a chwarae. Bydd unrhyw ganfyddiadau yn cyd-fynd yn llawn â'r weledigaeth tymor hwy ar gyfer ECEC.**

### **Cyfnod Sylfaen**

Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn rhoi cyfrifoldeb ar ddarparwyr cofrestredig i sicrhau bod egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a'i saith maes dysgu yn cael eu deall a'u cymhwyso'n briodol mewn lleoliadau, p'un a ydynt wedi'u hariannu i gyflwyno darpariaeth y Cyfnod Sylfaen ai peidio. Mae'r adborth o'r adolygiad yn awgrymu bod diffyg canllawiau clir i'r sector nas ariannwyd ar yr hyn sy'n ofynnol er mwyn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen.

Wrth i'r cwricwlwm newydd gael ei gyflwyno – Cwricwlwm i Gymru 2022 - rhoddir ystyriaeth i'r ffordd orau o gefnogi darparwyr drwy'r cyfnod pontio o'r Cyfnod Sylfaen tuag at y cwricwlwm newydd er mwyn parhau i ddiogelu egwyddorion ac ethos y

Cyfnod Sylfaen.

### **Argymhelliad 18**

**Ystyried y ffordd orau o gefnogi'r sector drwy drosglwyddo o'r Cyfnod Sylfaen i egwyddorion y Cwricwlwm Newydd a ffyrdd newydd o weithio**

#### **Fformat/strwythur cyffredinol y Safonau**

Mae'r adolygiad hwn wedi awgrymu bod cytundeb cyffredinol ynghylch defnyddioldeb y safonau wrth helpu darparwyr i ddeall sut i fodloni'r rheoliadau, er bod y sector chwarae yn arbennig wedi lleisio amheuon sylweddol am safonau penodol. Fodd bynnag, codwyd y pwyntiau canlynol;

- Ni chredwyd bod y teitl 'safonau gofynnol' yn ddefnyddiol nac yn briodol ar gyfer lleoliadau sy'n gofalu am blant.
- Mewn rhai achosion, roedd y safonau yn llym iawn, ac mewn achosion eraill, roeddent yn amwys ac yn agored i gael eu dehongli.

O ran modelau amgen, gwnaed yr awgrymiadau canlynol:

- Canllawiau penodol i sector. Er bod hyn yn cael ei groesawu gan y sector chwarae, roedd eraill yn pryderu y byddai'n arwain at arolygiadau mwy cymhleth;
- Ymagwedd gyfunol at y safonau o ran cael prif ganllawiau craidd, gyda chanllawiau penodol i sector yn eu hategu;
- Gallai canllawiau statudol yn nodi'r rheoliadau fod yn ddefnyddiol, wedi'u cefnogi gan ddolenni at arfer da yn dangos sut y gallai'r rheoliadau gael eu bodloni. Galwodd rhai am ddull gweithredu mwy cymesur o ran y safonau, yn debyg i'r dull gweithredu a fabwysiadwyd gan AGC i gefnogi RISCA.

### **Argymhelliad 19**

**Ystyried gwneud gwaith pellach i edrych ar rai o fanteision ac anfanteision ymagwedd fwy cymesur at y safonau, neu ymagwedd fwy penodol i fath.**

## Argymhelliad 20

### Ystyried ffyrdd o symleiddio'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol presennol

## 5 Camau Nesaf

5.1 Tra y gellir datblygu rhai o ganfyddiadau allweddol ac argymhellion yr adroddiad hwn yn gyflym, er y bydd angen cefnogaeth partneriaid a rhanddeiliaid, mae gan eraill oblygiadau polisi trawstoriadol ehangach ac mae angen iddynt gael eu hystyried fel rhan o'r darlun ehangach. Mae sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r agenda ECEC yn allweddol a bydd angen i unrhyw benderfyniadau a wneir adlewyrchu'r gwaith sy'n mynd rhagddo yn y maes hwn. Mae llawer o'r canfyddiadau a'r argymhellion ar gyfer gwella yn cyd-fynd ag ystyriaethau presennol ECEC.

5.2 Yn fwy bras, mae'r adolygiad wedi datgelu materion pellgyrhaeddol ar draws y sector gofal plant a chwarae ac wedi codi disgwyliadau y bydd Llywodraeth yn eu hystyried ac yn ymateb iddynt. .

5.3 Un o'r cwestiynau hanfodol sydd eto i'w ateb, ac un y gallai swyddogion polisi ac AGC ei ystyried fel rhan o'n trafodaethau ar ymateb i'r materion a godwyd uchod yw - beth ydym yn ei ofyn o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol? A ydym yn dymuno iddynt fod, fel y mae'r enw'n ei awgrymu, yn set o safonau gofynnol, neu a oes gennym ddyheadau ehangach o ran ansawdd ar gyfer y safonau hyn? Fel y dywedodd un rhanddeiliaid awdurdod lleol "a ddylem fyth bennu isafswm o ran safonau pan mae'r safonau hynny'n ymwneud â gofal plant?"

## **Atodiad 1**

### **Cwestiynau'r Gweithgor gofal plant**

1. Pa fuddion cadarnhaol a wireddwyd ers i'r rheoliadau gael eu hystyngiadau?
2. A fu unrhyw effaith negyddol?
3. Darpariaeth adeg Gwyliau: A hoffech weld dull mwy cymesur o ran darpariaeth adeg gwyliau? Os felly, sut beth fyddai hyn?
4. Gwarchodwyr plant: A oes angen i ni wneud y safonau sy'n ymwneud â gwarchodwyr plant sy'n gweithio gyda'i gilydd ar un safle yn gliriach?
5. A ddylem lacio rheolau sy'n golygu bod yn rhaid i warchodwyr plant weithio ar safleoedd domestig yn unig (e.e. gweithio hyd at 50% ar safle ysgol)?
6. Cynorthwywyr Gwarchod Plant: Beth yw eich barn/pryderon ynghylch cynorthwywyr gwarchod plant?
7. Pa elfennau o'u rôl sydd angen eu gwneud yn gliriach, yn eich tyb chi?
8. Cymwysterau: A oes angen i ni adolygu'r disgwyliadau ar gyfer lefelau cymwysterau?
9. Ym mha ffyrdd y gallem gefnogi pobl i gymhwyso er mwyn gweithio yn y sector?
10. A ddylem newid y gofynion ar gyfer cymwysterau Cymorth Cyntaf (yn Lloegr, bydd yn ofynnol i bob ymarferydd gofal plant newydd gymhwyso ar lefel 2 neu 3 feddu ar gymhwyster cymorth cyntaf Pediatrig)
11. Cymarebau: Pa gymarebau ddylai gael eu cymhwyso ar gyfer staff â chymwysterau uwch?
12. Cyffredinol: A oes gennych unrhyw sylwadau am fformat canllawiau'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol neu sut ddylent gael eu cyflwyno?
13. A oes gennych unrhyw sylwadau pellach i'w hychwanegu at eich ymateb?

## **Atodiad 2**

### **Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig i blant hyd at 12 oed**

#### **Canfyddiadau ymatebion i'r holiadur darparwyr a luniwyd ym mis Mawrth 2019**

##### **Cyflwyniad**

Ym mis Rhagfyr 2018, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Cwlwm lunio holiadur dwyieithog a'i ddsbarthu i ddarparwyr gofal plant a blynyddoedd cynnar yng Nghymru. Gweithiodd partneriaid Cwlwm gyda Llywodraeth Cymru i gytuno ar y cwestiynau i'w cynnwys ynddo. Cynhaliwyd yr holiadur ar-lein drwy Survey Monkey o 18 Rhagfyr 2018 a daeth i ben ar 22 Chwefror 2019. Rhannwyd y ddolen at yr holiadur a gwybodaeth gysylltiedig drwy lwyfannau digidol (cyfryngau cymdeithasol, gwefannau, e-gylchlythyrau) ac unrhyw gyfryngau perthnasol eraill (cylchgronau, cylchlythyrau ac ati) gan bartneriaid Cwlwm a rhanddeiliaid allweddol eraill er mwyn gwella'r gyfradd ymateb.

Nododd y rhagarweiniad:

*Mae Llywodraeth Cymru a Cwlwm yn dymuno casglu barn darparwyr gofal plant a darparwyr chwarae ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Trwy lenwi holiadur ar-lein byr gallwch helpu i wella'r cymorth rydym yn ei ddarparu i'r sector a llywio penderfyniadau polisi yn y dyfodol.*

Daeth 554 o ymatebion i law drwy 'Survey Monkey' ac un drwy e-bost.

##### **Dadansoddiad o'r ymatebion a ddaeth i law**

Cwestiwn 1: A ydych chi (neu eich lleoliad) wedi'ch cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) fel gwarchodwr plant, darparwr gofal dydd llawn neu sesiynol, darparwr y tu allan i'r ysgol neu ddarparwr darpariaeth chwarae mynediad agored?

Ydw. 89.53%

Nac ydw: 10.47%

Dengys hyn fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi'u cofrestru ag AGC ac felly eu bod yn ddarostyngedig i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

## **Cwestiwn 2: Nodwch [ba fath o ddarparwr ydych]**

Darparwyd y wybodaeth hon gan 85% o'r holl ymatebwyr. Ni wnaeth 15% ymateb i'r cwestiwn hwn. Rydym yn ymwybodol bod rhai Awdurdodau Lleol neu randdeiliaid allweddol eraill wedi defnyddio'r holiadur hwn fel cyfle i rannu eu barn ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol er bod yr holiadur hwn yn canolbwyntio ar ddarparwyr, felly gellir tybio nad oedd rhai o'r ymatebwyr yn ddarparwyr, ac felly wedi hepgor y cwestiwn hwn.

## **Cwestiwn 3: Pa wasanaeth/au gofal plant ydych yn eu cynnig? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.**

Roedd yr ymatebwyr yn gallu dewis pob math o ofal a ddarperir ac roedd y canlyniadau hyn yn adlewyrchu hynny. Roedd y gyfradd ymateb uchaf ar gyfer gofal ar ôl ysgol (54%) wedi'i dilyn gan ofal dydd llawn (53%). Nid yw'r ymatebion hyn wedi cael eu coladu yn ôl y math o ddarparwr, ond gellir rhoi dadansoddiad pellach yn ôl yr angen os byddai hyn o gymorth.

## **Cwestiwn 4: Faint o staff cyfwerth ag amser llawn (gan gynnwys chi eich hun) sy'n gweithio yn eich lleoliad?**

Mae llai nag 1 yn golygu bod y staff yn gweithio'n rhan amser, mewn achosion lle mai dim ond nhw eu hunain sy'n gweithio yn y ddarpariaeth. Ar gyfartaledd, roedd gan 68% o ymatebwyr 2 aelod o staff neu fwy ac roedd gan 57% 3 neu fwy. Roedd gan leiafswm sylweddol (22%) 7 aelod o staff neu fwy. Noder nad yw hyn yn rhoi ystyriaeth i'r ffordd y mae'r ymatebion yn amrywio yn ôl y math o ddarpariaeth. Er enghraifft, mewn lleoliadau gwarchod plant, byddai'r niferoedd yn isel o gofio natur y gwasanaeth, fodd bynnag byddai'n arferol i staff gael eu cyflogi mewn lleoliadau mwy o faint. Nid yw'r ymatebion hyn wedi cael eu coladu yn ôl y math o ddarparwr, ond gellir rhoi dadansoddiad pellach yn ôl yr angen os byddai hyn o gymorth.

## **Cwestiwn 5: A yw'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn eich cefnogi i ddarparu gofal plant o ansawdd da? Os felly, beth sy'n gweithio'n dda a pham?**

Cafwyd 239 o ymatebion i'r cwestiwn hwn (43% o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r holiadur). Cafwyd amrywiaeth eang o ymatebion. Yn fras, (yn dilyn dadansoddiad amrwd o'r holl sylwadau) roedd 86% o'r ymatebwyr yn cefnogi'r Safonau Gofynnol

Cenedlaethol ar y cyfan, ac roedd 14% yn gwrthwynebu iddynt. Felly, mae'r mwyafrif helaeth o blaid y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Ymhlith yr ymatebion cadarnhaol, roedd cael llinell sylfaen o ddisgwyliadau clir a'r ffaith y darperir fframwaith clir er mwyn ei gwneud yn bosibl darparu gwasanaeth o ansawdd da, yn ogystal â chyfeirlyfr ar gyfer gofynion deddfwriaethol, polisi a rheoleiddio. Roedd yr ymatebion negyddol yn nodi prosesau beichus, anghysondeb yn null AGC o ddehongli'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, diffyg cymesuredd ar gyfer gwarchodwyr plant a darparwyr llai, gofynion o ran cymarebau, diffyg eglurdeb o ran cymwysterau a disgwyliadau rhieni.

**\*Cwestiwn 6: Ystyriwch pa rai o'r safonau, os o gwbl, rydych yn eu cael yn heriol i'w rhoi ar waith, a disgrifiwch yr heriau hynny?**

Cafwyd 213 o ymatebion i'r cwestiwn hwn (38% o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r holiadur).

Roedd ymatebion cyffredin yn cynnwys y canlynol:

- Cymhareb rhy gaeth
- Diffyg cysondeb ar ran arolygwyr AGC
- Yr angen am wahanol safonau i warchodwyr plant
- Dim byd heriol
- Gwaith papur
- Orlhain cynnydd plant
- Yr adroddiad ar ansawdd gofal
- Newidiadau di-ben-draw i bolisiau a gweithdrefnau
- Natur y lleoliad
- Gofynion o ran cymwysterau
- Safon 7 - cyfleoedd i chwarae a dysgu
- Recriwtio staff
- Gofynion llym o ran y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Mae Safon 14.5 (gweithwyr allweddol) yn amhosibl
- Safon 21 – beth yw 'digwyddiad sylweddol'?
- Yr her o ailgofrestru lleoliad
- Grwpio plant ar sail oedran
- Staffio cynllun gwyliau

- Dim cymorth ariannol i oresgyn heriau yn seiliedig ar natur y lleoliad
- Y gofyniad am staff ychwanegol
- Cymwysterau staff, yn enwedig o ran darpariaeth adeg gwyliau
- Nifer y toiledau
- Arafwch AGC
- Gweinyddu
- “Parhad gofal”
- Deall datblygiad plant
- Canllawiau mwy ymarferol a chyson
- Sgiliau sylfaenol yn rhy heriol i'r gweithlu
- Diffyg dealltwriaeth rhieni
- Rôl yr iaith Gymraeg a deall ei dylanwad

**\*Cwestiwn 7: Yma mha ffordd y gellid gwella'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol er mwyn mynd i'r afael â'r heriau rydych wedi'u hamlinellu yng nghwestiwn 6, heb beryglu'r gwaith o ddiogelu plant?**

- Cafwyd 205 o ymatebion i'r cwestiwn hwn (37% o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r holiadur).
- Roedd ymatebion cyffredin yn cynnwys y canlynol:
- Gwerthfawrogi'r gofal a ddarperir gan warchodwyr plant mewn lleoliad cartrefol
- Mwy o hyblygrwydd gan arolygwyr
- Mae angen i arolygwyr fod yn fwy cyson
- Canllawiau pellach
- Dim
- Dim digon o fanylder, yn enwedig o ran pontio
- Mae angen i arolygwyr fod yn fwy cyson a deall yr heriau'n well
- Hyfforddiant arolygwyr
- Cymarebau
- Cydnabod profiad dros gymwysterau
- Mae arolygwyr yn anodd eu plesio ynghylch pethau rhyfedd
- Deall chwarae'n well
- Derbyn staff sydd yn athrawon cymwys ac sydd ar lefel 3



- Mwy o gymorth gweinyddol i roi'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar waith
- Symleiddio'r gofynion o ran y cymarebau, gan ddibynnu ar natur y lleoliad
- Symleiddio'r gofynion ar gyfer cynlluniau chwarae a gwarchodwyr plant
- Rôl y rhieni, hynny yw, sicrhau eu bod yn deall y gofynion rheoleiddiol
- AGC i gyhoeddi polisiau cenedlaethol safonol
- Gofynion gwahanol pan gaiff plant eu hasesu men lleoliad cyfrwng Cymraeg (gan gofio eu bod yn siarad Saesneg gartref)
- 
- Mwy o hyfforddiant
- Grantiau

\*Mae'r ymatebion i gwestiwn 6 a chwestiwn 7 yn gysylltiedig â'i gilydd ac wedi'u coladu isod.

Cafodd y themâu allweddol canlynol eu nodi yn yr holiadur ac maent wedi'u grwpio yn erbyn pedair thema graidd arolygiadau AGC. Ynghyd â rhoi adborth cadarnhaol ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, gofynnodd yr ymatebwyr am fwy o eglurder a hyblygrwydd mewn perthynas â'r materion hyn, gyda natur y ddarpariaeth yn cael ei chydabod yn gliriach mewn unrhyw newidiadau a wneir i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

### **Thema 1:**

Codwyd materion yn ymwneud â'r canlynol:

#### **Gofynion o ran gweithiwr allweddol**

'Nid yw'n bosibl [bodloni gofynion gweithwyr allweddol] pan fydd staff yn gweithio sifftiau. Os bydd aelod o staff yn gweithio 7-4 a bod y rhieni yn cyrraedd am 5pm, ni all fod yno i siarad â'r rhieni'

### **Thema 2: Gofal a Datblygu**

Codwyd materion yn ymwneud â'r canlynol:

#### **Cynllunio ar gyfer dysgu plant a gofynion y Cyfnod Sylfaen**

- 'Dydw i ddim yn athro a gwnaeth y rhieni fy newis i am fy mod yn lleoliad yn y cartref ac maent eisiau i'w plentyn gael y math o fywyd o ddydd i ddydd y byddai'n ei gael gartref gyda nhw. Os ydw i'n treulio fy amser i gyd yn cwblhau

gwaith papur [yn ymwneud â'r Cyfnod Sylfaen a chynllunio ar gyfer dysgu] mae hynny'n cymryd amser i ffwrdd o'r plant, a dyw'r rhieni ddim eisiau hynny.'

- 'Darparwyr gofal plant ydyn ni, nid darparwyr addysg'
- 'Arsylwadau - ni fu unrhyw ganllawiau na strwythur ar hyn. Does neb yn gwybod beth yn union a ddisgwylir ganddynt a dwi ddim yn meddwl ein bod ni yn ei wneud mewn ffordd debyg. Byddai wedi helpu pe bai rhywun wedi dangos i ni cyn dechrau sut i wneud hyn yn llwyddiannus a phryd'.

### **Gweithio mewn partneriaeth â rhieni**

'Mae'r mwyafrif o rieni yn awyddus i weithio gyda ni ond dyw rhai ddim yn awyddus i symud gydag arferion presennol. Er enghraifft, chwarae yn y llaid, chwarae yn yr awyr agored, bod yn fentrus gyda phaent a glud. Rydyn ni wedi gofod gweithio'n galed i addysgu rhieni am fanteisio chwarae blêr.'

### **Thema 3: Yr amgylchedd**

Codwyd materion yn ymwneud â'r canlynol:

#### **Nid oes ystyriaeth yn cael ei rhoi i natur yr amgylchedd**

- Nid yw'n hawdd newid cynllun yr adeilad os oes problem. Mae arolygwyr yn rhoi barn ar sail cynlluniau na ellir eu newid bob amser, ond dydyn nhw ddim yn rhoi unrhyw gymorth ar sut i wneud newidiadau cost effeithiol a fydd hefyd yn cefnogi gofal o safon uchel.'
- 'Rydyn ni'n llogi neuadd eglwys hen iawn, does gennym ni ddim rheolaeth dros faterion cynnal a chadw. Bydd hyn yn golygu ein bod ni'n cael gradd isel pan ddaw'r graddau ar gael.'
- '[Gofynion o ran] nifer y toiledau a mesuriadau adeiladau gan nad yw gofod awyr agored yn cael ei gyfrif ar gyfer lleoliad cynllun chwarae mynediad agored.'
- 'Rydyn ni'n lleoliad awyr agored - does gennym ni ddim 'ystafelloedd' gyda rheiddiaduron ac ati, felly mae'n anodd cynnal tymheredd. O ran adnoddau - rydyn ni'n defnyddio llawer o wrthrychau rydym wedi dod o hyd iddynt, neu eitemau 'go iawn' o siopau elusen - dyw hi ddim *bob amser yn bosibl gwybod a ydynt yn bodloni safonau CE/BS priodol.*'

### **Thema 4: Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Codwyd materion yn ymwneud â'r canlynol:

## **Anghysondeb o ran cofrestru, rheoleiddio ac arolygu a dehongliad AGC o'r**

### **Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

- 'Mae dehongliad y Safonau Gofynnol Cenedlaethol gan arolygwyr yn her gyson. Nid oes unrhyw ddau arolygydd byth yn arolygu yn yr un ffordd ac yn gwneud yr un argymhellion'
- '[roedd yr] asesiadau risg manwl roedd yn ofynnol i mi eu cwblhau i'w gweld yn ddiangen ac yn mynd dros ben llestri - nid oedd un a gwblhawyd gan swyddog tân yn ddigon da i fy arolygydd i'
- '[mewn perthynas â'r diffiniad o] ...digwyddiadau sylweddol. Mae hyn mor agored i'w ddehongli ac nid yw'n glir beth mae'n ei gwmpasu. Mae'n annheg wedyn i gael eich barnu pan nad ydych wedi rhoi gwybod am rywbeth.'
- 'Nid yw'n ymwneud cymaint â chynnwys y safonau ag â'r ffordd y caiff y broses arolygu ei chymhwyso, sydd, i ddarpariaeth adeg gwyliau, yn anghymesur.'
- 'Mae'n ymwneud mwy â barn arolygwyr na herio'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Gwahanol arolygwyr yn dod i mewn i leoliadau ac yn rhoi eu barn (*nad yw'n rheoliadau*) a *all effeithio ar raddau neu'r arolygiadau yn gyffredinol.*'

### **Gofynion helaeth o ran gwaith papur**

- 'Mae'r holl waith papur yn her, yn enwedig adolygiadau staff, arfarniadau a sesiynau goruchwyllo.' 'Cwblhau ffurflenni a dogfennaeth gan fod hyn yn cymryd cymaint o amser.'
- 'Darparu tystiolaeth ysgrifenedig o bob manylyn, hyd yn oed cofnodion glanhau teganau. Mae llawer o'r gwaith papur yn cael ei ddyblygu ac mae'r llwyth gwaith papur yn eithriadol i'r pwynt lle bod gennym ni fel ymarferwyr lai a llai o amser i weithio gyda'r plant mewn gwirionedd.'

### **Dim hyblygrwydd o ran y cymarebau**

- 'Mae'n frwydr gyson i gadw fy musnes i fynd fel Gwarchodwr plant gan nad oes unrhyw hyblygrwydd o ran y niferoedd o blant dan 5 oed. Er enghraifft, os yw rhieni eisiau hanner diwrnodau. Efallai y bydd un am gasglu plentyn am 12:30 a bydd un arall am ddechrau am 12 ar yr un diwrnod ac os oes gennyf 2 blentyn arall dan 5, mae'n rhaid i fi droi busnes i fwrdd oherwydd 30 munud. Mae hyn yn digwydd yn eithaf aml ac mae'n cael effaith enfawr ar fy musnes.'

- ‘Gan fod y cynnig gofal plant bellach ar waith, mae'n heriol ceisio cadw o fewn y cymarebau, yn enwedig amser cinio pan fydd yr ysgolion yn trosglwyddo o sesiwn fore i sesiwn brynhawn. Hefyd pan fydd ysgol yn cau oherwydd amgylchiadau fel eira na ellir eu rhagweld, ac mae gennych chi blant yn eich gofal ar yr adeg honno, a gallech fod mewn sefyllfa lle rydych uwchlaw eich cymarebau tan fod y rhieni yn gallu dod i gasglu'r plant. does dim hyblygrwydd.’
- ‘Yr her fwyaf yw staffio, yn enwedig sicrhau bod y rheolwr yn ychwanegol i'r cymarebau bob amser, oherwydd gyda materion fel salwch staff a chasglu plant o'r ysgol, gall fod yn her dod o hyd i ddigon o staff.’  
‘Rwy'n credu bod angen parhad gofal yng Nghymru er mwyn caniatáu i warchodwyr plant ymestyn eu cymarebau ar gyfer achlysuron unigol neu er mwyn gofalu am frodyr neu chwiorydd, ar yr amod eu bod yn gallu rheoli ac asesu risg.’
- ‘Methu â helpu os bydd unrhyw deuluoedd presennol angen gofal brys am unrhyw reswm, hyd yn oed os yw dim ond am awr.’

### **Materion yn ymwneud â recriwtio a chadw staff**

- ‘Fel darparwr sydd ond yn gweithredu am 13 wythnos y flwyddyn, staffio yw'r peth mwyaf heriol. Mae hyfforddi a chadw staff bob blwyddyn er mwyn bodloni deddfwriaeth bresennol yn anodd iawn ac yn ddrud. Mae hyn wedi golygu bod y ddarpariaeth wedi lleihau.’
- ‘Unigolyn Cofrestredig - anodd iawn ei recriwtio gan nad oedd swyddfa AGC leol iddynt fynd iddi felly roedd yn rhy ddrud i deithio ac yn cymryd gormod o amser.’
- ‘Recriwtio staff â'r cymhwyster cywir, yn enwedig pan na fydd cwmnïau hyfforddiant bob amser yn cynnig y cymhwyster hwnnw, e.e. gwaith chwarae.’
- ‘Mae cymwysterau yn rhy gymhleth.... mae angen canllawiau cliriach ar gymwysterau.’

**Cwestiwn 8: Gan ystyried y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn eu cyfanrwydd, pa welliannau/diwygiadau eraill y gellid eu gwneud er mwyn diwallu anghenion teuluoedd a phlant yn well, er mwyn helpu i sicrhau bod gofal plant cofrestredig o ansawdd ar gael?**

Cafwyd 177 o ymatebion i'r cwestiwn hwn (32% o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r holiadur).

Roedd ymatebion cyffredin yn cynnwys y canlynol:

- Yr angen am wahanol safonau i warchodwyr plant
- Yr angen i gynnwys rhieni wrth gynllunio'r safonau
- Derbyn bod rhieni eisiau i'w plant fod yn ddiogel
- Yr angen am gysondeb, tryloywder a safoni ymhlith arolygwyr
- Angen i'r safonau gael eu hysgrifennu'n well, neu eu gwneud yn haws er mwyn gwneud pethau'n symlach
- Cymarebau mewn lleoliadau gwarchod plant
- Yr angen i symleiddio safonau er budd gwarchodwyr plant ac arolygwyr
- Mae'r safonau'n rhoi gormod o bwyslais ar waith papur yn hytrach nag ansawdd y ddarpariaeth
- Dim angen eu newid
- Y gallu wneud galwad ffôn i AGC yn bersonol
- Rhoi enghreifftiau o arfer da
- Caniatáu mwy o ddisgresiwn i ddarparwyr
- Gormod o gynlluniau ansawdd, e.e. ITERS, ECERS, canllawiau maeth, rhaglenni iechyd ac ati. Mae angen un cynllun ansawdd cyson
- Mwy o ymgynghori â darparwyr
- Mwy o gymorth i blant ag anghenion ychwanegol
- Dealltwriaeth well o'r agenda chwarae
- Ansicr
- Un arolygiaeth yn cwmpasu AGC ac Estyn
- Ystyried pam fod y broses gofrestru yn cymryd cymaint o amser
- Gofynion o ran cymwysterau staff yn rhy llym
- Yr angen am ofal plant i blant ym mlynnyddoedd 7 ac 8
- Gymorth ariannol i gwblhau gwaith papur
- Cael rhieni i ddeall pwysigrwydd cofrestru
- Mwy o gymorth gan Lywodraeth Cymru

Roedd y rhain yn cysylltu'n rhannol â sylwadau a wnaed yng nghwestiynau 6 a 7 ac roeddent yn cynnwys y canlynol:

### **Cysondeb ac eglurder**

Gwnaed sylwadau ynghylch yr angen i gefnogi gwelliannau i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol er mwyn rhoi mwy o gysondeb yn y dull o gofrestru, rheoleiddio ac arolygu gan AGC;

- 'Mae angen eu symleiddio fel bod gwarchodwyr plant ac arolygwyr yn gwybod beth yn union sydd ei angen.'
- 'Proses fwy hyblyg o gymhwyso [y Safonau Gofynnol Cenedlaethol] er mwyn caniatáu rhywfaint o ddisgresiwn i ddarparwyr cofrestredig wneud penderfyniadau i reoli eu lleoliadau yn fwy effeithiol. Gall arolygiadau fod yn eithaf goddrychol gan ddibynnu ar farn Arolygwyr unigol, ac ni allwn herio hyn. (Yn ein profiad ni) os caiff dyfarniad AGC ei herio, nid yw byth yn cefnogi'r her honno.'
- 'Cysondeb yn yr arolygiadau, a pha mor aml y cânt eu cynnal. Mae'n ymddangos fel petai (y fformat) yn cael ei ddiwygio a'i newid yn gyfan gwbl bob yn ail flwyddyn. Yn nhermau'r hyn sydd ei angen, yr hyn y mae arolygwyr yn chwilio amdano, sut maent yn arolygu, pryd. Byddai'n dda cael cysondeb gyda gwelliannau ac aliniadau yn hytrach na'u bod yn cael eu hysgrifennu o'r newydd.'

### **Hyblygrwydd o ran cymarebau**

Daeth sylwadau i law yn galw am fwy o hyblygrwydd a dychwelyd at y defnydd o 'amrywiadau' er mwyn darparu gwasanaeth hyblyg i deuluoedd a helpu i sicrhau bod gofal plant ar gael ac yn gynaliadwy.

- 'Caniatáu gwarchodwyr plant i wneud dewisiadau synhwyrol ar gymarebau. Mae'n sefyllfa chwerthinllyd lle, pam fod gennyf 3 o blant mewn addysg hanner dydd, na allaf gymryd pedwerydd plentyn i helpu un o'm teuluoedd am un prynhawn yr wythnos. Rwy'n gwbl ymwybodol o'm galluoedd a'm cyfyngiadau a dylwn allu asesu hyn dros fy hun. Ni fyddai caniatáu amrywiad achlysurol yn y niferoedd yn peryglu diogelwch plant mewn unrhyw ffordd.'

### **Deall natur y ddarpariaeth**

Cafwyd sylwadau ar yr angen i wella'r ddealltwriaeth o natur wahanol ddarpariaeth ac i hyn gael ei adlewyrchu yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

'Dealltwriaeth well o chwarae mynediad agored - sy'n darparu darpariaeth chwarae ddiogel ac ysgogol o ansawdd da am ddim wrth wraidd cymunedau mewn lleoliadau sy'n rhad i'w llogi ac yn gweithio gyda gweithlu tymhorol sy'n symud yn barhaus'

### **Hyrwyddo gwaith y sector a chynnwys rhieni mewn unrhyw newidiadau**

Cafwyd sylwadau am yr angen i gynnwys rhieni mewn unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ac am angen ehangach i hyrwyddo gwaith lleoliadau gofal plant cofrestredig. Byddai hyn yn cefnogi ymgysylltiad ac yn meithrin dealltwriaeth o ofal plant a chwarae cofrestredig yng Nghymru.

- 'Nid oes gan deuluoedd sy'n defnyddio gwarchodwyr plant ddiddordeb yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Y cyfan y mae arnyn nhw eisiau yw lle diogel, glân a hapus i'w plant dderbyn gofal.'
- 'Mae angen i rieni ddeall beth i chwilio amdano wrth ddewis gofal plant ac efallai y byddai mwy o wybodaeth am y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn fuddiol yn hynny o beth.'
- 'Rydym yn ymdrechu i ddarparu'r gofal gorau posibl. Mae rhieni a chymdeithas yn gyffredinol yn cwyno am gost gofal plant, ond mae staff da yn haeddu cael eu talu'n dda. Mae angen i rolau gweithwyr gofal plant gael eu gwerthfawrogi'n fwy. Mae angen i bobl weld beth y mae'n rhaid ei wneud fel rhan o'r swydd a'r cymwysterau angenrheidiol ac mae angen codi'r proffil.'
- 'Dylai rhieni fod yn ymwybodol o'r gwahaniaeth [rhwng gofal plant cofrestredig ac anghofrestredig].
- 'Cyhoeddi canllaw rhieni i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol er mwyn iddynt wybod beth i'w ddisgwyl gan leoliad.'

### **Rôl y Safonau Gofynnol Cenedlaethol wrth gefnogi gofal plant a chwarae o ansawdd da**

Cafwyd sylwadau am gylch gwaith y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a ph'un ai'r bwriad yw hysbysu darparwyr o'r safonau gofynnol neu eu cefnogi i ddarparu darpariaeth gofal plant a chwarae o ansawdd da.

- 'Y lleoliad sy'n darparu ansawdd, ac mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ond yn ganllaw o'r isafswm y mae'n rhaid ei wneud er mwyn cynnal cofrestriad. Efallai

y byddai enw gwahanol yn fuddiol, gan roi mwy o bwyslais ar ansawdd yn hytrach na'r hyn sy'n ofynnol.'

- 'Peidiwch ag ychwanegu mwy o reoliadau sy'n mynnu bod ymarferwyr yn gneud gwaith papur bob ochr i ddiwrnod gwaith 9 awr o hyd. Dyma beth fydd yn gwneud i mi gau fy lleoliad i.'

### **Cwestiwn 9:**

Cafwyd sylwadau ychwanegol gan 111 o ymatebwyr (20% o gyfanswm y rhai a ymatebodd i'r holiadur). Gwnaeth y mwyafrif ohonynt ailadrodd pwyntiau gan ddangos cryfder eu barn a rhwystredigaeth y sector.

Roedd ymatebion cyffredin yn cynnwys y canlynol:

- Yr angen am wahanol safonau i warchodwyr plant
- Cysondeb ymhlith arolygwyr
- Mwy o ganllawiau enghreifftiol
- Mwy o gyllid
- Dim
- Yr angen i ymgynghori â rhieni a phlant
- Mwy o bwyslais ar ofal dros addysg
- Gormod o waith papur diangen
- Mwy o gefnogaeth i leoliadau cyfrwng Cymraeg gan AGC
- Gormod o gefnogaeth i leoliadau cyfrwng Cymraeg
- mwy o gydnabyddiaeth o sgiliau'r gweithlu
- Pwysigrwydd cofrestru
- Y gymhareb
- Recriwtio staff
- Mae'r gofynion datblygiad plant yn dwysáu
- AGC yn gwneud gwaith da
- Pam fod angen ailgofrestru ar sail newidiadau statws elusenol / cyfansoddiadol?
- Angen ymgynghori â'r sector os oes newidiadau yn cael eu gwneud i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol
- Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn wych



- Gwrando ar farn pwyllgorau rheoli gwirfoddol
- Adolygu bob dwy flynedd
- Diolch am y cyfle i ymateb
- Mwy o gysondeb rhwng AGC a Dechrau'n Deg

Roedd y sylwadau yn cynnwys:

- 'Rwy'n gobeithio'n fawr y caiff y Safonau Gofynnol Cenedlaethol eu diwygio er mwyn ystyried y lleoliadau gwahanol iawn a gynigir gan feithrinfeydd gofal dydd a gwarchodwyr plant yn y cartref. Mae gwarchodwyr plant yn gadael y proffesiwn yn eu heidiau gan nad oes unrhyw ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r ffaith nad oes gennym ni, yn wahanol i leoliadau gofal dydd, reolwyr a staff swyddfa i wneud yr holl waith papur a ddisgwylir gennym ar hyn o bryd.  
Mae popeth yn syrthio ar ysgwyddau un unigolyn ac mae gan y rhan fwyaf ohonom deuluoedd ifanc ein hunain. Rwyf wedi bod yn warchodwr plant ers 12 mlynedd a dydw i erioed wedi teimlo mor siomedig nac mor agos at roi'r gorau iddi ac ydw i ar hyn o bryd oherwydd yr holl waith papur.'
- 'Fel darparwyr gofal, rydym wedi sylwi bod mwy a mwy o bwyslais ar addysg mewn lleoliadau gofal. Mae ein harolygiadau ESTYN yn ein cymharu ni ag ysgolion ag athrawon wedi'u haddysgu i lefel gradd. Cymwysterau lefel NVQ sydd gan ein staff ni ar y cyfan. Ni all y sector preifat fforddio talu staff â chymwysterau uchel, sy'n ein rhoi ni dan anfantais annheg. [Mae angen] mwy o werth a phwyslais... ar ofal.'
- 'Mwy o ymgynghori â darparwyr chwarae mynediad agored profiadol. Mae'r newidiadau wedi lleihau nifer y Cynlluniau chwarae a ddarperir ledled Cymru. Mae plant a theuluoedd ar eu colled nawr.'
- Dylai set ar wahân o Safonau Gofynnol Cenedlaethol fod ar waith ar gyfer darpariaeth anghofrestredig er mwyn sicrhau y darperir darpariaeth chwarae o ansawdd da - wedi'i monitro gan grwpiau gweithredu digonolrwydd chwarae ar draws pob awdurdod.'
- 'Rwy'n cydnabod bod Arolygwyr yn gweithio'n galed mewn system sydd eisoes dan bwysau, ond mae angen i ni weithio'n graffach er mwyn galluogi sefydliadau gwirfoddol bach i allu rheoli'r gwaith papur a'r prosesau er mwyn sicrhau y caiff lleoliadau chwarae plant eu datblygu sydd â systemau

ansawdd ar waith, yn hytrach na phrosesau biwrocraidd sy'n atal chwarae yn y gymuned ac sy'n cyfyngu ar ofal plant o ansawdd oherwydd y cyfyngiadau sydd ar waith.'

- 'Rwyf wrth fy modd â'm gwaith fel Gwarchodwr plant. Datblygiad y plant a'u hapusrwydd yw fy mlaenoriaeth. Mae gormod o waith papur yn tynnu ein hamser oddi wrth ran bwysicaf ein gwaith... sef y plant a chreu gemau/adnoddau/trefnu gweithgareddau dysgu hwyliog yn y cartref a'r tu allan i'w helpu i ddysgu a thyfu mewn amgylchedd cartref.
- 'Fel meithrinfa gymharol newydd (4 blynedd) roedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol mor ddefnyddiol er mwyn adeiladu'r busnes. Maent yn feincnod gwych ac rydym yn cyfeirio atynt yn aml mewn cyfarfodydd staff. Maent wedi ein helpu i ddatblygu agwedd broffesiynol ymhlith y staff ac maent yn ymdrechu'n gyson i fynd yr ail filltir.'

### **Casgliadau ac argymhellion.**

Mae'r holiadur wedi nodi themâu sy'n berthnasol i'r sector o safbwynt y Safonau Gofynnol Cenedlaethol (ac yn benodol, rôl AGC). Mae'n deg dweud y ceir consensws bras o blaid y Safonau Gofynnol Cenedlaethol (yn seiliedig ar ganrannau bras), ond bod problemau wedi'u hamlygu hefyd. Nid yw canran yr ymatebwyr (yn nhermau'r math o ddarpariaeth) yn gwbl gynrychioliadol o wneuthuriad y sector felly mae angen bod yn ofalus wrth ddefnyddio canfyddiadau'r adroddiad hwn.

Rydym yn ymwybodol bod cwestiynau a oedd yn cynnig cwymplenni wedi ennyn mwy o ymatebion, a gallwn ystyried eu defnyddio ar gyfer mwy o gwestiynau mewn holiaduron yn y dyfodol, gan gadw opsiwn hefyd i bobl roi sylwadau er mwyn casglu mwy o fanylion.

Ynghyd â'r angen i ystyried canfyddiadau'r adroddiad hwn, mae Cwlwm hefyd yn argymhell bod angen i Llywodraeth Cymru ystyried gwneud mwy o waith yn y maes hwn, gan gynnwys y canlynol:

- Yr angen am holiadur sector ehangach i bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol er mwyn casglu barn y rhai sy'n cefnogi'r sector.
- Mwy o grwpiau ffocws gyda darparwyr, rhanddeiliaid allweddol a rhieni/gofalwyr er mwyn ystyried y themâu a nodir yn yr adroddiad hwn.

- Ystyried dadansoddiad arbenigol o unrhyw waith ymchwil pellach consider a gynhelir.
- Ymgysylltu â'r sector ar unrhyw newidiadau arfaethedig drwy broses ymgynghori ffurfiol